

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2021-2022



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Rhagair	3
Cyflwyniad a Chefndir	4
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024	6
Asesu Perfformiad	10
Thema: Cydlyniant Cymunedol	10
Amcan: Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol	10
Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol	16
Amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful	16
Thema: Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cynhwysol	18
Amcan: Ymgysylltu â'n Dinasyddion i gymryd rhan a lleisio eu barn i ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau	18
Thema: Gwasanaethau Hygyrch	27
Amcan: Deall a dileu'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'n gwasanaethau	27
Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol	28
Amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful	28
Data'r Gweithlu	30
Data'r Gweithlu	31
Thema: Rhywedd/Cyflog Cyfartal	39
Amcan: Sicrhau tegwch cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful .	39
Rhywedd/Cyflog Cyfartal	39
Y Camau Nesaf	40
Manylion Cyswllt	41

Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (MTCBC) yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gyfer ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024. Paratowyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 25 Mawrth 2020.

Drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2021-2022 yn profi ymgyrch barhaus y Cyngor i ddatblygu ei agenda cydraddoldeb a chyflawni ein Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful, sef:

Man lle mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial heb wahaniaethu a rhagfarn.

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ein rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd, cyflogwr a gweithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol.

Neges gan ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb, y Cynghorydd Gareth Richards

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2021-2022. Mae'n ofynnol i'r Cyngor o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol ar y camau y mae wedi'u cymryd i fodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'i Amcanion Cydraddoldeb ei hun. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf i osod dyletswyddau penodol ar wasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i'r rhai sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried ffyrdd o gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach trwy ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi sylw dyledus i ddileu gwahaniaethu.

Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod pawb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cael eu trin â pharch cyfartal ac nad yw eu hamgylchiadau unigol yn eu rhwystro rhag derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt gan y Cyngor neu ei bartneriaid. Drwy'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol hwn ar gyfer 2021-2022 yn dyst i ymgyrch barhaus y Cyngor i ddatblygu ei Agenda Cydraddoldeb a chyflawni'i Weledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful, sef: *Man lle mae amrywiaeth yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu a lle gall pawb gymryd rhan, ffynnu a chael y cyfle i gyflawni eu potensial heb wahaniaethiad a rhagfarn.* Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni'r Weledigaeth hon drwy ei rôl fel arweinydd cymunedol, darparwr gwasanaeth, comisiynydd, cyflogwr a thrwy weithio mewn partneriaeth i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant y Fwrdeistref Sirol. Cydnabyddir bod yna feysydd i'w gwella ar hyn o bryd ac y bydd angen gwelliant i'r dyfodol.

Cyflwyniad a Chefndir

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ac yn disodli'r cyfreithiau gwrth-wahaniaethu blaenorol gydag un Ddeddf. Mae'n symleiddio ac yn cryfhau'r gyfraith, yn dileu anghysondebau ac yn ei gwneud yn haws i bobl ei deall a chydymffurfio â hi. Daeth y rhan fwyaf o'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2010.

Mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd cydraddoldeb newydd yn y sector cyhoeddus (y 'ddyletswydd gyffredinol'), sy'n disodli'r dyletswyddau ar wahân ar hil, anabledd a chydaddoldeb rhywiol. Daeth hyn i rym ar 5 Ebrill 2011.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol newydd yn cwmpasu'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaethau Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil – gan gynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd
- Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred
- Rhyw (Rhywedd)
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n berthnasol i briodas a phartneriaeth sifil, ond dim ond mewn perthynas â'r gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Beth yw'r ddyletswydd gyffredinol?

Nod y ddyletswydd gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio polisiau a darparu gwasanaethau, a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyson. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i bawb.

Wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

Y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru

Diben cyffredinol y dyletswyddau penodol yng Nghymru yw helpu cyrff rhestredig i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol a helpu tryloywder.


Nodir y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Daeth y dyletswyddau penodol yng Nghymru i rym ar 6 Ebrill 2011.


Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth cydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau cyflog
- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiadau Gweinidogion Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Gweledigaeth ac Amcanion Cydraddoldeb y Cyngor ar gyfer 2016-2020 yn cefnogi Amcanion Llesiant y Cyngor a'r saith Nod Llesiant (a ddangosir yn y diagram isod) ac yn cysylltu â'r pum ffordd o weithio (yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy) a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.





Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 2024

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol MTCBC ar gyfer y pedair blynedd nesaf (2020-2024) yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydraddoldeb ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau statudol fel y gwelir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r cynllun yn disodli Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar 25 Mawrth 2020.

Mae'n tynnu sylw at ddeddfwriaeth a rheoliadau sy'n cwmpasu Deddf Safonau'r Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a chyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae hyn yn parhau â'r gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud ac yn hyrwyddo ein hymrwymiad i sicrhau bod gennym gymunedau cynhwysol heb wahaniaethu.


Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus wneud y canlynol;

- Cyhoeddi amcanion i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.
- Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau y mae wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion a pha mor hir y mae'n disgwyl ei gymryd i gyflawni pob amcan.
- Gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion ac i fonitro effeithiolrwydd ei ddull gweithredu.
- Rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb y mae'n ei dal wrth ystyried beth ddylai ei hamcanion cydraddoldeb fod.

Roedd y dyletswyddau penodol yng Nghymru yn cynnwys gofyniad i gyrff rhestredig ddatblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.

Fel rhan o'r adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, nodwyd bod Gweledigaeth Cydraddoldeb ar gyfer Merthyr Tudful yn hanfodol er mwyn nodi uchelgais y Cyngor i ddileu gwahaniaethu / aflonyddu, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da.

Datblygwyd y Weledigaeth Cydraddoldeb ganlynol ar gyfer Merthyr Tudful.



Cefnogir y Weledigaeth hon gan y pump Amcan Cydraddoldeb canlynol (a restrir yn y tabl isod) a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ar gyfer 2021-2022.

Thema	Amcan
Ymgysylltu a Chyfranogiad Cynhwysol	Ymgysylltu â'n Dinasyddion i gymryd rhan a lleisio eu barn i ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau.
Cydluniant Cymunedol	Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol.
Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol	Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful.
Rhywedd/Cyflog Cyfartal	Sicrhau tegwch cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.
Gwasanaethau Hygyrch	Deall a dileu'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'n gwasanaethau.

Cyflawnir yr Amcanion Cydraddoldeb hyn drwy Gynllun Gweithredu sydd wedi'i nodi yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

Gweithgor y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Sefydlwyd Gweithgor Cynllun Cydraddoldeb Strategol i gydweithio ar gyflawni'r camau gweithredu o fewn y cynllun a nodi unrhyw gamau eraill y gellid eu cynnwys, trafod materion, risgiau a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys swyddogion o bob rhan o'r Cyngor sy'n cyflawni camau gweithredu o fewn y cynllun.

Canllawiau craffu

Mae gwybodaeth am y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wedi'i chynnwys yn y 'Pecyn Adnoddau Cymorth Ymarferol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Craffu' a oedd yn cael ei ddatblygu yn 2021. Mae'n esbonio beth mae'r ddyletswydd yn ei olygu i ni, sut y gallwn ddiffinio terminoleg, sut mae'n cysylltu â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r hyn mae'n gofyn i ni ei wneud. Cafodd y pum cam i gyflawni'r ddyletswydd hon eu cynnwys fel canllaw cam wrth gam gweledol o sut y gallwn sicrhau bod 'sylw dyledus' wedi'i roi i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau.

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i ystyried ('talw sylw dyledus' i) sut y gallwn leihau anghydraddoldebau canlyniad a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'r ddyletswydd yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a rhoi mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau allweddol. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Yn gyffredinol, ystyr 'anfantais economaidd-gymdeithasol' yw byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr ddim cyfoeth cronedig, gan arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Mae'r ddyletswydd yn fecanwaith allweddol o ran cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, ac mae'n eithriadol o bwysig yn ein hadferiad yn dilyn y pandemig.

Daeth y ddyletswydd i rym ar 31 Mawrth 2021 a chynhaliwyd nifer o weithgareddau cyn hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r ddyletswydd hon. Bydd y ddyletswydd yn fecanwaith allweddol o ran cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau, a bydd yn eithriadol o bwysig pan fyddwn yn gwella o'r pandemig coronafeirws.

Asesiad Effaith Integredig

Rydym wedi adolygu Asesiad Effaith Integredig y Cyngor i sicrhau ei fod yn cynnwys ystyriaeth o dan anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Mae'r adrannau canlynol wedi'u cynnwys yn yr IIA;

- **Incwm Isel/Tlodi Incwm** - Methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth, eitemau hanfodol eraill ac ati.
- **Cyfoeth Isel a/neu Dim Cyfoeth** - Digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw arbedion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaeth ar gyfer y dyfodol.

- **Amddifadedd Materol** - Methu â chael nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hamdden a hobiau ac ati.
- **Amddifadedd Ardal** - Ble rydych chi'n byw e.e. ardaloedd gwledig, a lle rydych chi'n gweithio e.e. hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus.
- **Cefndir Economaidd-Gymdeithasol** - Dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni.
- **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** - Pa effaith gronnoel a gaiff y cynnig ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu bod eisoes dan anfantais?

Ochr yn ochr â'r ychwanegiadau hyn, rydym hefyd wedi cynnwys yr adrannau canlynol i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei hystyried wrth ymgysylltu a defnyddio data;

- **Ymgynghori ac Ymgysylltu** – Gofyniad i ymgynghori a/neu ymgysylltu gael ei gynnal, neu ddisgwyliad dilys y bydd yn digwydd. Defnyddio egwyddorion Gunning a nodi pa fath o ymgynghoriad a gynhaliwyd, pwy yr ymgynghorwyd â nhw ac os oes angen ymgysylltu neu ymgynghori pellach.
- **Data a Thystiolaeth** - Data a thystiolaeth a ddefnyddiwyd er mwyn llywio'r cynnig a sut mae wedi helpu i ddatblygu'r cynnig ac os oes unrhyw fylchau wedi'u nodi.

Mae'r canllawiau wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r ddyletswydd hon a hefyd yr adrannau newydd a ychwanegwyd o fewn yr IIA. Datblygwyd fersiynau hawdd eu darllen ar gyfer staff a thaflenni prydlon i'w defnyddio wrth gwblhau'r IIA ar ddechrau unrhyw gynnig neu brosiect. Mae'r wybodaeth hon wedi'i diweddarau ar Fewnrwyd y Cyngor ac unrhyw newidiadau a roddwyd i'r staff.

Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac adrannau eraill i adolygu'r IIA a chasglu adborth ar unrhyw adrannau newydd i'w cynnwys yn yr IIA. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf a chyflwynwyd sesiynau yn archwilio'r adrannau newydd i roi mwy o fanylion am yr hyn yr oedd pob maes yn ei olygu.

Goresgyn Effeithiau COVID-19

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud yn ystod pandemig COVID-19 ar draws yr Awdurdod, gyda rhai staff wedi'u hadleoli i rolau eraill i sicrhau bod swyddogaethau allweddol yn cael eu cyflawni i gefnogi ein trigolion a'n cymunedau.

Yn ystod camau cynnar y pandemig, fe welwch o rai adroddiadau blaenorol fod cefnogaeth sylweddol wedi'i rhoi i'n preswylwyr gan: y rhai fu'n gwarchod; y cymorth a roddwyd i ddysgwyr oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol; y prydau ysgol am ddim a roddwyd i blant; y cymorth tai; y grantiau; yr ymarferion profi torfol; yr ymdrech a wnaed i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a'u taclo; y cerfluniau, yr henebion a'r enwau strydoedd a adolygwyd yn sgil ymgyrchoedd y mudiad Mae Bywydau Du o Bwys; y cymorth a roddwyd i staff, ynghyd â llawer o orchwylion allweddol eraill.

Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar gymdeithas ac roedd ansicrwydd yn nodweddiadol o'r cyfnod hwn wrth i'r wlad gyflwyno cyfnodau clo ychwanegol, sefydlu canolfannau brechu torfol, ac yna diddymu rhai o'r cyfyngiadau. Roedd llawer o grwpiau bregus yn parhau i deimlo'n ynysig yn ystod yr adeg hon, a bydd cryn amser cyn i rai pobl deimlo y gallant ddychwelyd i'r drefn a fodolai cyn y cyfnodau clo.

Mae'r gwaith a gyflawnir gennym ar gydraddoldeb yn adlewyrchu ein hymrwymiad i sicrhau bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau, a bod effeithiau negyddol y pandemig ddim yn cael dylanwad anghymesur arnynt.

Asesu Perfformiad

Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed i gyflawni Amcanion Cydraddoldeb ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020-2024.

Thema: Cydlyniant Cymunedol

Amcan: Hyrwyddo a hwyluso cymunedau cynhwysol, diogel a chydlynol

Un o'r amcanion yw Cydlyniant Cymunedol. Mae Cydlyniant Cymunedol yn hanfodol o fewn y Fwrdeistref Sirol er mwyn i wahanol grwpiau o bobl gyd-dynnu a phrofi'r ymdeimlad o berthyn. Mae hyn yn galluogi pobl i deimlo'n fwy diogel a sicr yn eu cymunedau. Mae cymuned lle mae pobl yn cynyddu'u cysylltiadau ac yn meithrin perthnasoedd gwell ag eraill, hefyd yn ymestyn eu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau.

Dyma grynodeb o'r modd y mae hyn wedi'i weithredu gan y Tîm a'r modd y mae sefydliadau allanol a gwaith mewnol wedi cyfrannu at gyflawni'r mesurau hyn.

Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd ôl-ffeithiau COVID-19 i'w teimlo o hyd. Roedd llawer o gyfyngiadau yn dal mewn grym a phan godwyd rhai ohonynt, roedd pobl yn parhau'n betrus i gwrdd wyneb yn wyneb. Felly, roedd unrhyw gysylltiad yn cael ei wneud ar ffurf rithwir yn bennaf, a thua diwedd y flwyddyn, cynhaliwyd rhai digwyddiadau ar raddfa fechan i ailgysylltu ag unigolion a chymunedau.

Ar yr adeg hon, roedd pobl hefyd yn pryderu am yr Amrywiolyn Delta o COVID-19. Roedd tensiynau'n uchel o gwmpas: y rhai a ddewisodd beidio â chael eu brechu; yr anesmwythder ynghylch codi cyfyngiadau, a'r datganiadau/mudiadau gwrth-frechu. Gwnaed ymdrechion i annog grwpiau lleiafrifol i gymryd rhan yn y cynllun brechu. Bu'r Tîm Cydlyniant, ynghyd â Swyddogion Ymgysylltu COVID oedd newydd eu penodi gan Interlink a Gweithredu

Gwirfoddol Merthyr Tudful i weithio gyda'r gymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn ymweld â pherchnogion/staff busnes yng nghanol tref Merthyr. Pwrpas yr ymweliadau hyn oedd ymgysylltu â'r gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a datblygu dealltwriaeth o'r hyn yr oedd pobl yn teimlo am COVID-19, y brechlyn a'r gefnogaeth a gawsant yn ystod y pandemig.

Dyma'r gwaith a wnaed wrth fonitro'r tensiynau cymunedol ehangach yn ystod y cyfnod hwn:

- Parhaodd y Swyddogion Cydlyniant i gysylltu â Swyddog Troseddau Casineb Heddlu De Cymru yn wythnosol wrth i Heddlu De Cymru a Chymorth i Ddiodefwyr rannu gwybodaeth a nodi tueddiadau a/neu ddangosyddion tensiwn. Roedd hyn yn galluogi Swyddogion i fonitro mannau problemus a rhoi cynlluniau gweithredu ar waith.
- Parhaodd Swyddogion Cydlyniant i gysylltu â'r sectorau gwirfoddol a ffydd yn ystod y cyfnod hwn. Parhaodd y cyswllt â'r partneriaid mewnol a'r asiantaethau allanol sy'n cefnogi aelodau o'r Gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.
- Mynychwyd cyfarfodydd o'r Grŵp Datrys Problemau (PSG) bob mis ar draws Cwm Taf. Arweinir y cyfarfodydd hyn gan yr Heddlu, lle rhennir gwybodaeth am droseddau casineb a thensiynau cymunedol gan nifer o wahanol bartneriaid. Mae'n caniatáu dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael â'r problemau hyn.
- Agorwyd Cronfa Grant Cydlyniant Cymunedol Cwm Taf a'i rhoi ar waith gan y Tîm Cydlyniant. Mae'r Gronfa yn cynnig cyfle i grwpiau ymgeisio am grantiau rhwng £500 a £3000. Cyflwynodd nifer o grwpiau lleol geisiadau llwyddiannus i'r Gronfa. Helpodd y grantiau hyn i ariannu digwyddiadau a gynhaliwyd gan nifer o grwpiau i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb.
- Mynychwyd y Fforwm Iechyd a Llesiant ar ffurf rithwir bob deufis. Mae hwn yn cael ei gynnal gan Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful. O'r cyfarfodydd hyn, sefydlir cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig.
- Rhoddodd y Tîm Cydlyniant gefnogaeth i Gymdeithas Ddiwylliannol y Malayali ym Merthyr (MMCA) a oedd newydd ei ffurfio, a chynhaliwyd ei seremoni agoriadol ddydd Sul 20 Mawrth, lle cynigodd y grŵp flas ar fwydydd eu diwylliant.

Diwrnod Windrush

Diwrnod Windrush yw 22 Mehefin, ac mae'n ddiwrnod a gynhelir i gofio a dathlu'r genhedlaeth Windrush a ddaeth o'r Caribî i helpu ailadeiladu Prydain ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Hyrwyddodd CBSMT y Diwrnod ar gyfryngau cymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn parhau i anrhydeddu a chydabod gwytnwch, arloesedd a chreadigrwydd rhagorol y Genhedlaeth Windrush a'u disgynyddion. Mae ymfudwyr Caribïaidd wedi dod yn rhan hanfodol o gymdeithas Prydain ac, yn y broses, wedi trawsnewid agweddau pwysig ar fywyd Prydain.

Yr EUSS

Mae gweithwyr yr UE yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i weithlu a chymdeithas y DU. Mae Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (yr EUSS) yn caniatáu i ddinasyddion tramor a'u teuluoedd gael "statws mewnudo" fel y gallant barhau i fyw, gweithio ac astudio yn y DU y tu hwnt i 30 Mehefin 2021. Mae hyn yn dilyn ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyd yn oed y dinasyddion hynny sydd wedi byw yn y DU ers blyneddau

lawer neu sydd â dogfen breswyllo barhaol yn y DU yn dal i fod angen gwneud cais i'r EUSS.

Parhaodd y Tîm Cydlyniant i hyrwyddo'r EUSS yn ystod y cyfnod hwn. Hyrwyddodd CBSMT yr Ymgyrch "Mae Amser yn Rhedeg Allan" ar eu llwyfannau yn y cyfryngau cymdeithasol. Siaradodd y Tîm Cydlyniant hefyd â dinasyddion yr UE a gyflogir yn lleol gan dynnu'u sylw at ddyddiad cau'r EUSS a'r angen i wneud cais i'r EUSS. At hynny, byddai'r Tîm yn darparu unrhyw gymorth lle bo angen.

Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Cynhelir Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb (yr Wythnos) rhwng 9-16 Hydref, a nod yr ymgyrch yw dod â phobl at ei gilydd i sefyll mewn undod â'r rhai y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt, a helpu'r rhai sydd angen cymorth parhaus. Mae'n wythnos sy'n annog sefydliadau, partneriaid allweddol, a chymunedau i gydweithio er mwyn mynd i'r afael â throseddau casineb lleol a lleihau eu heffeithiau.

Cynhaliodd Tîm Cydlyniant CBSMT ynghyd â gweddill y Tîm Diogelwch Cymunedol a Heddlu De Cymru, stondinau gwybodaeth yng nghanol amryw o drefi ar draws ardal Cwm Taf, er mwyn ymgysylltu â'r cyhoedd a'u hannog i gwblhau arolygon. Er bod y rhain yn ddigwyddiadau llai na'r hyn yr ydym yn eu cynnal fel arfer, roeddem yn dal i allu hyrwyddo'r Wythnos. Yn ystod yr Wythnos, fe wnaethom ni hefyd hysbysebu am grwpiau lleiafrifol i ymuno â'n GCC (Grŵp Cydlyniant Cymunedol) fel y byddai gennym fwy o gynrychiolaeth gymunedol ar y Bwrdd. Llwyddwyd i recriwtio aelod o grŵp lleiafrifol lleol i gadeirio'r GCC. Helpodd hyn i gynyddu cynrychiolaeth y grwpiau lleiafrifol ar Gyrrff Cyhoeddus.

Diwrnod Atal Caethwasiaeth

Mae'r Diwrnod Atal Caethwasiaeth a gynhelir ar 18 Hydref, yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o fasnachu pobl a chaethwasiaeth fodern, ac mae hefyd yn gyfle i annog y llywodraeth, awdurdodau lleol, cwmnïau, elusennau ac unigolion i wneud yr hyn a allant i fynd i'r afael â'r broblem.

Hyrwyddodd CBSMT y diwrnod ar safleoedd ei gyfryngau cymdeithasol a thrwy anfon e-byst at yr holl Staff a Chynghorwyr, gan anelu at godi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern, yr arwyddion i edrych amdanynt, a'r drefn ar gyfer riportio'r mater.

Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

Trefnodd y Swyddogion Cydlyniant Ddigwyddiad Hunanamddiffyn yng Ngholeg Merthyr Tudful ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn cael ei gynnal yn flynyddol ar 8 Mawrth i ddathlu gorchestion menywod trwy gydol hanes ac ar draws y cenedloedd. Thema'r Diwrnod yn 2022 oedd "Rhwygo'r Rhagfarn" ("Break the Bias").

Cymerodd cryn nifer o fyfyrwyr ran mewn dosbarth hunanamddiffyn a drefnwyd gan HDC. Fe wnaeth pob un o'r myfyrwyr ryngweithio'n dda â'r heddwes a gyflwynodd y dosbarth. Unwaith i'r dosbarthiadau ddod i ben, gofynnwyd eto i'r myfyrwyr a oedd ystyr hunanamddiffyn yn glir iddynt. Cododd pob un o'r myfyrwyr eu dwylo a dweud eu bod bellach yn deall y cysyniad o hunanamddiffyn ac y byddent yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r egwyddorion yr oeddent wedi'u dysgu yn ystod y dosbarth. Dywedodd yr holl fyfyrwyr eu bod wedi mwynhau'r dosbarth yn fawr ac y byddent yn teimlo'n fwy diogel yn y gymuned.

Roedd y digwyddiad yn ategu'r gwaith y mae Heddlu De Cymru yn ei wneud mewn perthynas â strydoedd mwy diogel a'r pwyslais y maent wedi'i roi ar wella diogelwch menywod a merched. At hynny, fe drefnodd y Swyddogion Cydlyniant ddosbarth ffitrwydd a dawns a ddenodd llawer gan annog iddynt fynychu dosbarthiadau pellach.

Diwrnod Cofio'r Holocaust

Cafodd Diwrnod Cofio'r Holocaust ei nodi ar 27 Ionawr 2022. Dyma nodi'r diwrnod y rhyddhawyd Auschwitz-Birkenau sef gwersyll marwolaeth fwyaf y Natsiaid. Bob blwyddyn ar draws y DU, mae miloedd o bobl yn dod at ei gilydd i ddysgu mwy am y gorffennol ac yn gweithredu i greu dyfodol mwy diogel.

Thema'r Cofio yn 2022 oedd "Un Diwrnod". Mynychodd Swyddog Cydlyniant CBSMT Ardd Goffa'r Holocaust yn Llyfrgell Merthyr i dalu parch, ac ochr yn ochr â Swyddog ac Arolygydd Heddlu De Cymru, ymwelodd â'r Fynwent Goffa Iddewig yng Nghefn Coed i osod torch. Ar ben hynny, tynnwyd sylw'r Staff at y Diwrnod Coffa a phostiwyd coffâd ar lwyfannau ein cyfryngau cymdeithasol. Roedd y ddau beth yn cyfeirio pobl at wasanaeth ar-lein a gynhelir yn genedlaethol.

Mis Hanes Pobl Dduon

Cynhelir Mis Hanes Pobl Dduon bob mis Hydref. Mae'n gyfle i ddathlu'r cyfraniadau eithriadol a wnaed gan bobl dduon i gymdeithas Prydain, boed yn awr neu yn y gorffennol. Mae hefyd yn gyfle i bobl ddysgu mwy am effeithiau hiliaeth a sut i herio stereoteipiau negyddol. I dynnu sylw at Fis Hanes Pobl Dduon, derbyniodd staff CBSMT negeseuon yn amlygu adegau allweddol yn stori'r boblogaeth ddu ym Mhrydain tra rhannwyd y thema "Balch o Fod" ar lwyfannau ein cyfryngau cymdeithasol.

Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil

Cynhelir y Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Gwahaniaethu ar Sail Hil ar 21 Mawrth. Cynhelir y digwyddiad ar y diwrnod hwn oherwydd ar 21 Mawrth 1960, dechreuodd yr heddlu danio at bobl a lladd 69 ohonynt mewn gwrthdystiad heddychlon yn Sharpeville, De Affrica yn erbyn "deddfau trwydded" y system apartheid. Roedd y deddfau trwydded yn system basbort fewnol a luniwyd gan lywodraeth De Affrica i atal rhyddid pobl dduon i symud. Roedd hyn yn rheoli lle gallai pobl weithio, byw a theithio o fewn y wlad.

Y thema yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn oedd "Lleisiau dros Weithredu yn erbyn Hiliaeth". Mae'r thema'n pwysleisio bod angen cryfhau cyfranogiad a chynrychiolaeth ystyrlon a diogel y cyhoedd, a hynny ym mhob maes sy'n ymwneud â llunio penderfyniadau, er mwyn atal gwahaniaethu ar sail hil a brwydro yn ei erbyn.

Anogwyd Staff CBSMT ac aelodau'r cyhoedd i ddangos eu cefnogaeth drwy rannu eu lluniau gan ddefnyddio'r "ffrâm gwrth-hiliaeth" o Wefan Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig.

Mae CBSMT yn parhau i hyrwyddo dim goddefgarwch tuag at hiliaeth ar draws y Cyngor, ac wedi arwyddo Polisi Dim Hiliaeth Cymru a luniwyd gan Race Council Cymru. Drwy lofnodi'r Polisi, mae'n ail-gadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau bod CBSMT yn trin pob un yn deg ac yn gyfartal waeth beth fo'u hil, yn hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth a'r modd y

darperir gwasanaethau, yn glynu wrth Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn darparu gwasanaethau teg a chyfiawn i bawb.

Dim Hiliaeth Cymru

Mae Dim Hiliaeth Cymru yn ymgyrch a arweinir gan Race Council Cymru, ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Chydlynwyr Cydlyniant Cymunedol. Mae'n galw ar fusnesau, sefydliadau ac unigolion sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cytgorf a thegwch ymhlith yr hiliau, i lofnodi llw a chytuno ar Bolisi Dim Goddefgarwch tuag at Hiliaeth yng Nghymru.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi ymrwymo i hyrwyddo dim goddefgarwch tuag at hiliaeth ar draws y Cyngor, ac wedi arwyddo Polisi Dim Hiliaeth Cymru a luniwyd gan Race Council Cymru. Drwy lofnodi'r Polisi, mae'n ailgadarnhau ein hymrwymiad i sicrhau bod CBSMT yn trin pob un yn deg ac yn gyfartal waeth beth fo'u hil, yn hyrwyddo cyfle cyfartal mewn cyflogaeth a'r modd y darperir gwasanaethau, yn glynu wrth Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac yn darparu gwasanaethau teg a chyfiawn i bawb. Fel Cyngor, rydym yn cytuno i wneud safiad yn erbyn hiliaeth a hyrwyddo gweithle a chymdeithas fwy cynhwysol a chyfartal sy'n gwneud i bob unigolyn deimlo fel eu bod yn ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys.

Gellir gweld llw'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ar wefan Dim Hiliaeth Cymru.

Hefyd, datblygodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol ac ym mis Mawrth 2021, cynhaliodd Ddadansoddiad o'r modd yr Ymgysylltir â'r Gymuned a'i fwydo i mewn i'r Cynllun Gweithredu. Yna yn 2021, ymgwymerwyd ag Ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol gan ddenu ymatebion oddi wrth y Cyngor. Mae deilliant yr ymgynghoriad a'r gweithredu yn dal yn broses o gael ei ddatblygu.

Cymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr (SRT)

Mis Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Bu'r Tîm Cydlyniant yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynnydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i hyrwyddo Mis Hanes SRT a gynhelir trwy gydol Mehefin ar gyfryngau cymdeithasol, ac roedd yr ymgyrch yn fwy o faint nag yn y blynyddoedd blaenorol. Nod y mis yw addysgu a chodi ymwybyddiaeth o dreftadaeth SRT ac mae'n helpu i fynd i'r afael â rhagfarn, herio mythau ac amlygu lleisiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y gymdeithas ehangach.

Wrth barhau â'r cymorth a roir i'r gymuned SRT yn y Fwrdeistref Sirol, dyma beth o'r gwaith a oruchwyliwyd gan Reolwr Safle Glynmil CBSMT:

Cafodd Glynmil gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn ariannu rhan o uwchgynllun i adnewyddu ac ailddatblygu'r holl safle. Cymeradwywyd cam un ym mis Chwefror 2021 a chwblhawyd y gwaith erbyn mis Mehefin 2021. Roedd y newidiadau yn cefnogi llesiant teuluoedd y safle a'u hymdeimlad o berthyn. Roedd y cynllun a'r gwaith adnewyddu yn cynnwys ymgynghori â'r gymuned. O ganlyniad, bu modd i deuluoedd gael cysylltiadau trydanol newydd ar eu lleiniau, mesuryddion newydd oedd yn ddeallus ac yn hygyrch ar gyfer cyfleustodau, a PayPal sy'n ffordd fwy cyfleus iddynt dalu am bethau mewn siopau. Er bod y system ddeallus yn cynorthwyo teuluoedd rhag cael eu troi allan a mynd i ddyled, defnyddiwyd y cyllid hefyd i wneud y Ganolfan Gymunedol yn ddiogelach trwy osod boeler a chaeadau newydd yno. Roedd y cyllid hefyd yn cefnogi buddsoddiad CBSMT mewn offer ar

gyfer ardaloedd gwyrdd fel y gallai teuluoedd ddefnyddio mannau yn yr awyr agored ar gyfer chwaraeon a llesiant.

Roedd Canolfan Gymunedol Safle Glynmil yn gweithredu fel hyb i breswylwyr a theuluoedd estynedig fel y gallant gwrrdd â darparwyr gwasanaeth pan oedd cyfyngiadau COVID-19 yn caniatáu hynny. Mae Swyddog CBSMT ar gyfer y safle wedi parhau i gefnogi preswylwyr gyda materion yn ymwneud â thai, iechyd ac addysg. Ailagorodd CBSMT y Ganolfan ar y safle ym mis Mawrth 2021. Mae cyswllt wedi'i gynnal gyda phreswylwyr a theuluoedd estynedig dros y ffôn ac wyneb yn wyneb lle bo modd.

Dyma beth o'r gwaith a wnaed ac a gefnogwyd gan Reolwr Safle Glynmil CBSMT:

- Bu Rheolwr Safle Glynmil yn ymwneud ag ymchwiliad i Ganllawiau Addysg SRT ar gyfer Llywodraeth Cymru yn ogystal ag eistedd ar y bwrdd yng nghyfarfodydd rhanddeiliaid yr SRT. Ysgrifennodd y Rheolwr Safle hefyd Ganllaw i Lywodraeth Cymru ar Angladdau SRT yn ystod y Pandemig.
- Oddi ar fis Mehefin 2021, dechreuodd y Mudiad Meithrin ddarparu sesiynau chwarae yn yr awyr agored trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd SRT. Mae'r cynllun ar hyn o bryd yn ystod y tymor yn unig, ac am un diwrnod yr wythnos. Ers hynny, mae'r ddarpariaeth hon wedi symud i'r Ganolfan Gymunedol i gynnal chwaraeon dan do.
- Dosbarthwyd pecynnau gan Gelf ar y Blaen i deuluoedd ar y safle ym mis Ionawr 2021. Mae Celf ar y Blaen yn gweithio ar draws pob ffurf ar gelfyddyd gyda phobl o bob oed er mwyn darparu profiadau celfyddydol ysbrydoledig o ansawdd uchel sy'n cyflwyno pobl i ffurfiau newydd o gelf ac yn datgloi eu potensial creadigol.
- Ym mis Chwefror 2021, dosbarthwyd Pecynnau Llesiant Ieuenctid i bobl ifanc 11+ ar y safle, a dosbarthwyd pecynnau chwarae i blant ifanc. Cynigiwyd y pecynnau hyn gan Gymdeithas Tai Merthyr Tudful (CTMT) a Chartrefi Cymoedd Merthyr (CCM).
- Ym mis Mawrth 2021, fe gynigiodd CTMT offer chwaraeon i deuluoedd gan gynnwys aml-chwaraeon er mwyn i deuluoedd gadw'n heini tra oeddent ar y safle. Roeddem hefyd yn gallu defnyddio arian o'r Gronfa "Fit and Fed" i gynnal parseli bwyd i deuluoedd gan Gydweithfa Fwyd CTMT.
- Ym mis Mawrth hefyd, cynigiwyd Pecynnau Iechyd Meddwl i deuluoedd a theuluoedd estynedig trwy Dîm Ieuenctid Forsythia. At hynny, rhoddwyd Talebau Nofio i bob teulu trwy Ferthyr Heini ym mis Mawrth 2022.
- Ym mis Mai 2021, ariannwyd Celf ar y Blaen gan Dîm Cydlyniant CBSMT i gynhyrchu darn cymunedol i ddathlu Hanes SRT ym mis Mehefin. Ymwelodd yr artistiaid â theuluoedd o amgylch y safle i gynhyrchu cân am yr hyn y mae cymuned yn ei olygu i deuluoedd o dreftadaeth SRT. Mae hyn yn rhan o brosiect mwy y caiff ei roi ar fideo i'w rhannu yn nigwyddiadau Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr Iled y DU yn y dyfodol.
- Parhaodd y banciau bwyd i gynnal cymorth i deuluoedd. Cawsant hefyd gymorth i wneud cais am Gynllun Nyth sy'n cynnal ystod o gyngor diduedd am ddim ac, os ydynt yn gymwys, pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni am ddim ar gyfer y cartref megis boeler newydd, gwres canolog, inswleiddio, neu baneli solar. At hynny, gellir darparu cymorth ariannol i'w helpu gyda rhent neu gostau tai trwy eu cyfeirio at Dimau Atal yr Adran Tai am Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol

Amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful

Ochr yn ochr â'r thema Cydlyniant Cymunedol, mae rhai amcanion yn bwydo i mewn i'n thema Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol. Rydym am i weithwyr deimlo'n ddiogel yn yr amgylchedd y maent yn gweithio ynddo ac i fod yn driw i'w hunain. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio ar y cyd ac yn cefnogi ac yn hwyluso hyfforddiant a chyfleoedd dysgu ar gyfer Cydraddoldeb er mwyn ei gydnabod a'i ymgorffori mewn rolau.

Y Gymuned LHDT+

Ar 30 Medi, darparodd Umbrella Cymru gwrs hyfforddi ar Rywedd ac Amrywiaeth Rhywiol a oedd ar gael i holl staff CBSMT ar ffurf rithiol. Nodau cyffredinol y sesiwn oedd:

- gwella ymwybyddiaeth o rywedd ac amrywiaeth rhywiol;
- archwilio'r effaith y gallai profiadau pobl LHDT+ ei chael ar iechyd meddwl a llesiant;
- codi ymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael i bobl LHDT+.

Mis Hanes LHDT+

Ar 23 Chwefror, trefnodd y Tîm Cydlyniant ddigwyddiad bach yn y Redhouse ar gyfer Mis Hanes LHDT+ a gynhelir trwy gydol mis Chwefror. Mae'n ddatliad blynyddol o hanes lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol ac anneuaidd, gan gynnwys hanes hawliau LHDT+ a mudiadau hawliau sifil cysylltiedig. Mae hefyd yn annog inni ddatblygu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar y gymuned LHDT+.

Ei nod yw hyrwyddo cymdeithas fwy diogel a chynhwysol lle mae'r sbectrwm o rywioldeb a rhywedd amrywiol yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ac yn cael ei drafod yn agored. Comisiynwyd dau siaradwr gwadd i roi sgwrs yn y digwyddiad. Siaradodd un am homoffobia a'r llall am drawsffobia a soniodd y ddau am bwysigrwydd meithrin cymdeithas oddefgar ac eangfrydig. Mynychwyd y digwyddiad gan y Maer, Arweinydd yr ALI yn ogystal â'r Maer leuenctid a'r Fforwm leuenctid. Cafodd adeilad y Redhouse ei oleuo yn lliwiau'r Faner Cynnydd, a chwifwyd y faner ei hun y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig i nodi'r mis.



Derbyniodd yr holl Staff a Chynghorwyr e-byst wythnosol drwy gydol y mis yn amlygu'r thema: "Gwleidyddiaeth mewn Celf: Mae'r Arc yn Hir". At hynny, rhannwyd ffeithlenni ac adnoddau'n ymwneud â ffigyrau nodedig, ac anogwyd y defnydd o ragenwau. Roedd hyn yn cyd-daro â'n llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol yn amlygu'r mis ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Cynghorau Balch

Mae "Cynghorau Balch" yn bartneriaeth o Gynghorau yn Ne Cymru sy'n cydweithio i gefnogi materion yn ymwneud â'r gymuned LHDT+, ac i hyrwyddo ei chynhwysiant. Mae Cynghorau Balch yn cynnwys y canlynol: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Ers hynny, mae Cynghorau eraill wedi ymuno â'r grŵp.

Diben y Rhwydwaith Cynghorau Balch yw gwella'r cymorth a gynigir i Staff LHDT+ o fewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hefyd yn sicrhau bod llywodraeth leol ledled Cymru yn arwain ym maes hawliau LHDT+ mewn ffordd weladwy, ac yn hyrwyddo cynhwysiant LHDT+ yn ein cymunedau. Mae bod yn rhan o Gynghorau Balch yn tynnu sylw at ymrwymiad CBSMT i hyrwyddo parch ac amrywiaeth yn ein cymunedau, a sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio i gyflawni ar gyfer pawb waeth beth fo'u rhywioldeb, hunaniaeth rhyweddol, oedran, hil, anabledd neu grefydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd Cynghorau Balch gystadleuaeth ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed sy'n byw yng Nghymru, gan eu hannog i greu darn o gelf i ddathlu'r gymuned LHDT+. Y themâu oedd "Dod yn Fi" neu "Sut y gall oedolion fod yn gyfeillion i bobl ifanc LHDT+". Roedd safon uchel y ceisiadau a dderbyniwyd yn ei gwneud hi'n anodd dewis yr enillydd. Dewiswyd dau enillydd: Asiant 7 a greodd ddarn gwych o waith celf, ac Eva a gyfansoddodd ddarn o gerddoriaeth. Cafodd cynigion y ddau enillydd eu harddangos ar dudalen Twitter y Cynghorau Balch.



Ydych chi rhwng 11 ac 18 oed? Yn byw yng Nghymru?

**Mae Cynghorau Balch
eisiau clywed gennych CHI!**

Cymerwch ran yn ein cystadleuaeth LHDT+ a gallwch chi ennill gwerth **£100 o dalebau!**

Ewch ati i greu darn o gelf y gallwn ni ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol i ddathlu ein cymuned LHDT+ ar y themâu:

'Dod yn fi fy hun'

NEU

'Sut y gall oedolion fod yn gynghreiriaid i bobl LHDT+ ifanc'

I gystadlu: e-bostiwch eich cais i cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk gyda'ch enw (neu lun eich cymeriad rhithwir os ydych chi'n dymuno bod yn anhysbys) a'r sir rydych chi'n byw ynddi.
Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw 10 Awst 2021. Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar 24 Awst 2021 ar gyfrif Twitter Cynghorau Balch.

Thema: Ymgysylltiad a Chyfranogiad Cynhwysol

Amcan: Ymgysylltu â'n Dinasyddion i gymryd rhan a lleisio eu barn i ddeall ac ymateb i anghenion ein cymunedau

Mae ymgysylltiad, cynhwysiant a chyfranogiad cymunedol yn hanfodol i'r Cyngor wrth geisio cyflawni newid cadarnhaol ar gyfer y gymuned. Heb wybod mwy am y bobl sy'n rhan o'r cymunedau ym Merthyr Tudful, ni allwn ganfod problemau neu rwystrau penodol a allai eu hatal rhag cyrchu ein gwasanaethau neu ymgysylltu â'r Cyngor pan fo angen.

Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith a wnaed i weithredu'r thema yn ystod y cyfnod dan sylw:

Gwasanaeth Ieuentid

Mae Gwasanaeth Ieuentid CBSMT a phartneriaid a gomisiynwyd yn cefnogi pobl ifanc 11-25 oed yn y Fwrdeistref Sirol, mewn lleoliadau sy'n cynnwys ysgolion/darpariaethau addysg a chanolfannau ieuentid, a thrwy waith allgymorth.

Gyda rhai cyfyngiadau COVID-19 yn codi yn ystod y cyfnod hwn, cafwyd cynnydd yn y gwaith a wneir wyneb yn wyneb mewn ysgolion a darpariaethau addysg. Amlygwyd y ffocws ar lesiant, gweithgareddau, ail-ymgysylltu, presenoldeb yn yr ysgol, a chyrhaeddiad ar gyfer pobl ifanc a brofodd yr unigrwydd a'r effeithiau eraill a ddaeth yn sgil y pandemig. Dyma rai enghreifftiau o'r gwaith hwnnw:

- Gweithiwyd mewn partneriaeth â Thimau Arwain ac Athrawon i gyfrannu at wella ymgysylltiad a dilyniant y bobl ifanc sy'n mynychu'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) a'r darpariaethau ar gyfer Hyfforddiant Arbennig.
- Cyflwynwyd sesiynau pwrpasol a theilwredig i fodloni anghenion grwpiau bach o ddysgwyr er mwyn iddynt gyflawni cymwysterau. Roedd y pynciau'n cynnwys Deallusrwydd Emosiynol; Magu Hyder; Gwellu Sgiliau Cyfathrebu; Gwahaniaethu, a Rhagfarnau. O ganlyniad, cyflawnodd pobl ifanc naill ai L1 Agored Cymru mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol neu gymwysterau Addysg Gysylltiedig â Gwaith.
- Cynhaliwyd gweithgareddau a sesiynau i wella iechyd a llesiant, gan ddefnyddio gwasanaethau caffael sy'n arbenigo mewn chwaraeon, addysg awyr agored a gweithdai creadigol, gyda'r nod o gefnogi meddylgarwch ac ail-ymgysylltu wyneb yn wyneb.
- Yn ystod Mis Pride, cynhaliwyd sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'i hanes a pham ei fod yn bwysig. Canolbwyntiodd y sesiynau ar gydraddoldeb, hawliau, a thaclo rhagfarn.
- At hynny, cynhaliwyd sesiynau i addysgu a chynyddu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a digartrefedd er mwyn helpu pobl ifanc i ddeall y ffeithiau am ddigartrefedd a digartrefedd cudd. Roedd hyn yn sicrhau eu bod yn gwybod o ble i gael cymorth os byddan nhw neu eu cydnabod, yn dod yn ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref. Dysgon nhw hefyd am iechyd meddwl a salwch meddwl, a'r gwahaniaethau rhyngddynt.
- Cefnogaeth un-i-un a theilwredig yn ogystal â chymwysterau pwrpasol ar gyfer pobl ifanc 16+ oed ag anghenion cymhleth, er mwyn eu cefnogi i gael profiad gwaith gwirfoddol neu waith cyflogedig.

Canllawiau i Gefnogi Pobl Ifanc

Datblygwyd Canllawiau i Gefnogi Pobl Ifanc yn ystod y cyfnod hwn, lle nododd pobl ifanc feysydd iechyd a llesiant yr oeddent yn teimlo bod angen eu cydnabod er mwyn cefnogi pobl ifanc eraill. Roedd y pynciau'n canolbwyntio ar faterion yr oedd disgyblion yn teimlo eu bod wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo a'r adegau hynny pan oedd ysgolion ar gau

oherwydd COVID-19. Mae'r Canllawiau i Gefnogi Pobl Ifanc yn defnyddio agwedd weledol at iechyd meddwl, bwllo, cyfryngau cymdeithasol a gofalwyr ifanc, ac mae wedi'i ddarlunio gan y syniadau a grëwyd gan bobl ifanc. Ei nod yw bod yn hawdd ei ddefnyddio, yn Gymraeg/Saesneg, ac yn fodd i gyfeirio pobl ifanc eraill at wasanaethau cenedlaethol a lleol am ragor o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad.

Argraffwyd y Canllawiau i Gefnogi Pobl Ifanc mewn dau fformat: llyfryn a phosteri. Yna, fe wnaeth y disgyblion a'u datblygodd yn Nhŷ Dysgu Homfray (Cyfun) eu cyflwyno i'w cyfoedion yn Nhŷ Dysgu Newydd (Iau). Gwnaeth ymgysylltiad a chyfraniad y disgyblion greu argraff ar Bennaeth yr UCD ac mae'r posteri i'w gweld ym mhrif dderbynfa'r ysgol. Mae'r Canllawiau i Gefnogi Pobl Ifanc wedi'u dosbarthu i Arweinwyr Llesiant yr ysgolion prif ffrwd ac fe'u dosbarthwyd hefyd i'r Gwasanaeth Ieuencid ehangach ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol.



Ysgolion

O fewn y Fwrdeistref Sirol, mae pob ysgol wedi mabwysiadu ymagwedd gynhwysol a seiliwyd ar egwyddorion parch, goddefgarwch a hawliau. Nod hyn oll yw galluogi dysgwyr i fod yn unigolion gwydn, llawn dychymyg, tosturiol ac uchelgeisiol. Mae hyn wrth galon y Cwricwlwm i Gymru newydd a fydd yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd ym mis Medi 2022.

Mae pob ysgol yn hyrwyddo hawliau, parch a goddefgarwch fel rhan o'u hethos ac yn dathlu amrywiaeth ac yn annog trafodaeth iach. Defnyddir ystod o adnoddau i gefnogi'r rhain ac mae Hwb Llywodraeth Cymru yn cynnig yr adnoddau mwyaf diweddar i ysgolion.

Mae'n ofynnol i ysgolion ddatblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae yna le sylweddol i amcanion cyffredin, sy'n digwydd mewn ystod o gynlluniau unigol, yn enwedig ar draws clystyrau ac ysgolion tebyg. Bwriedir ailedrych ar y rhain yn ystod y flwyddyn academaidd i ddyfod.

Dylai amcanion cydraddoldeb fod yn gysylltiedig â strategaethau sy'n bodoli eisoes, yn ogystal ag ymagwedd yr ysgolion tuag at gynhwysiant, bwllo, rheoli ymddygiad, gwella cyrhaeddiad, llais disgyblion, llesiant, a chymorth i ddisgyblion. Dylai ysgolion geisio adeiladu ar eu gwaith presennol a sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch yn cael eu hystyried ym mhrif ffrwd y gweithgareddau. Fel Awdurdod Lleol, mae gan bob ysgol aelodau o staff sydd wedi'u hyfforddi mewn Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (PBS) i gynorthwyo'r agenda hon.

Mae'r Cynlluniau Strategol a ddatblygwyd gan ysgolion yn mynnu eu bod yn ystyried anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, yn ogystal â'r Gymraeg.

Mae ysgolion yn deall eu cyfrifoldebau o ran Deddf Gwrthderfysgaeth 2015 a'u dyletswyddau ataliol, h.y. ceisio atal plant a phobl ifanc rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae gan ysgolion rôl allweddol o ran canfod a chefnogi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio, ac maent yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu disgyblion rhag dylanwadau a allai eu radicaleiddio. Mae datblygu lefelau gwytnwch yn hanfodol ar gyfer hyn ac mae angen eu haddysgu fel rhan annatod o'r cwricwlwm.

Gofynnwyd i holl staff yr ysgolion gwblhau'r modiwl newydd ar WRAP (Gweithdy i Godi Ymwybyddiaeth o Prevent) erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2022. Disgwylir i aelodau o'r staff uwch hefyd gwblhau'r modiwlau ar Atgyfeirio a Sianelu.

Yn ystod y flwyddyn, bu Uwch Staff yr ysgolion a'r Fforwm Ieuenctid yn trafod yn fanwl yr ymatebion i'r Adroddiad Estyn ar Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion, a rhoddwyd cymorth a hyfforddiant i ysgolion ar ffyrdd o gyflawni'r agenda hon.

Oddi ar 2010, mae Cynhadledd Flynyddol y Myfyrwyr wedi cefnogi disgyblion ac athrawon mewn amryw o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb. Yn 2022, canolbwyntiodd y gynhadledd hon ar faterion yn ymwneud â Chamfanteisio ar Blant.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae'r Adran Addysg Oedolion yn cefnogi oedolion yn y gymuned i fynychu a chwblhau ystod eang o gyrsgiau a chymwysterau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo datblygiad a chynnydd personol o fewn swydd neu duag at gyflogaeth, yn ogystal â gwella sgiliau unigolion mewn meysydd blaenoriaeth (e.e. Sgiliau Hanfodol). Ychydig iawn o gymwysterau sydd gan lawer o ddysgwyr pan fyddant yn ymgysylltu am y tro cyntaf - maen nhw'n debygol o fod ymhlith yr anoddaf i'w cyrraedd neu efallai eu bod wedi cael profiad gwael o addysg brif ffrwd, gan arwain efallai at brinder o ran y cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd sydd ar gael iddynt. Daeth mwy o anfanteision i ddysgwyr yn sgil y pandemig byd-eang, wrth i ddosbarthiadau mewn lleoliadau cymunedol gau a chysiau'n symud i fod ar-lein. Fodd bynnag, wrth i ni symud ymlaen ac adennill tir ar ôl COVID-19, ac wrth i leoliadau cymunedol agor, mae'r gwasanaethau wedi gallu datblygu dull hybrid o gyflenwi. Bellach, gall y dysgwyr ddewis i fynychu cyrsiau wyneb yn wyneb neu ar-lein, gan roi mwy o hyblygrwydd iddynt.

Mae dysgwyr wedi parhau i fanteisio ar ddatblygiad y Cynllun Benthycia Gliniaduron sydd wedi rhoi'r modd iddynt ddechrau dysgu neu barhau i ddysgu. Drwy gydol y cyfnod, bu ffocws parhaus ar iechyd a llesiant y dysgwyr, gyda chysiau'n cael eu cynnig a thiworiaid yn mynychu hyfforddiant ychwanegol mewn Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl, a Chymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl. Mae hyn wedi galluogi tiwtoriaid i fod yn fwy cymwys i ganfod arwyddion a rhoi cymorth i ddysgwyr.

Mae ffocws parhaus ar lythrennedd digidol wedi gweld cynnydd yn nifer y dysgwyr o bob oed sy'n dilyn cyrsiau ar sut i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein fel Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol yn Ddiogel, Siopa Ar-lein, a Sut i Ddefnyddio Gwasanaethau Ar-lein. Mae'r Clwb Porwyr Penwyn (ar gyfer dysgwyr 50+ oed) yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda dysgwyr yn elwa o ddysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau trwy gymdeithasu.

Trwy fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu adnoddau a seilwaith digidol ar gyfer dysgu cymunedol, gan weithio gyda phartneriaid cymunedol ac ysgolion i ddatblygu hyb ar ei gyfer. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ond unwaith iddo fod yn weithredol, bydd yn darparu ystafelloedd dosbarth cymunedol ag offer cyflawn mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Fwrdeistref Sirol, fel bod dysgwyr yn cael adnoddau mwy hygrych a chysiau mwy amrywiol.

Mae'r Gymraeg yn parhau fel llinyn cyson drwy gydol y ddarpariaeth gan gefnogi Safonau'r Gymraeg ac Amcanion Corfforaethol. Mae arolwg wedi'i gynnal ynghylch sgiliau Cymraeg y tiwtoriaid, ac maen nhw wedi elwa o hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol Cymru fel y gallant ymgorffori dwyieithrwydd ym mhob cwrs, hyrwyddo "bod yn Gymreig", ac esbonio'r modd yr ydym yn gweithredu fel cenedl.

Pontydd i Waith 2

Mae Pontydd i Waith 2 yn cefnogi pobl 25 mlwydd oed a throsodd sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Yn ystod 2021-2022, cofrestrodd y prosiect 62 o gyfranogwyr a nododd ? ohonynt fod ganddynt gyflyrau iechyd oedd yn cyfyngu ar eu gwaith. Roedd cymorth hefyd yn parhau ar gyfer cyfranogwyr a gofrestrodd ymlaen llaw gan gynnwys y rhai a wnaeth ddatgan eu bod yn anabl neu'n meddu ar gyflyrau iechyd oedd yn effeithio ar eu gallu i weithio.

Yn ystod y cyfnod hwn, bu modd ymgysylltu a chynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb unwaith eto wrth i gyfyngiadau'r pandemig COVID-19 lacio. Nid oedd pob cyfranogwr yn gyfforddus i gwrdd yn bersonol, felly roedd staff y Prosiect yn parhau i gadw mewn cysylltiad â rhai cyfranogwyr o bell - naill ai trwy ffonio, tecstio neu ddefnyddio Microsoft Teams. Roedd hyfforddiant yn canolbwyntio mwy ar sgiliau cyflogadwyedd yn ystod y cyfnod hwn, tra oedd y staff yn parhau i gefnogi iechyd emosiynol a llesiant y cyfranogwyr. Roedd trefniadau hefyd ar waith ar gyfer danfoniadau banc bwyd, mewn partneriaeth â Banc Bwyd Merthyr Cynon. Roedd y staff hefyd yn darparu cymorth i bobl wneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol drwy Lywodraeth Cymru.

Bu'r Prosiect yn "gweithio o bell" mewn partneriaeth â'r Tîm Tai â Chymorth ar gyfer yr ymyriad Parod ar gyfer y Tenant, er mwyn rhoi'r offer i gyfranogwyr fyw'n annibynnol a chynnal eu tenantiaeth trwy gydol y pandemig. Mae hyn wedi ennill momentwm yn ystod rhan olaf y cyfnod wrth i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ddychwelyd a mwy o bobl yn manteisio ar yr ymyriad.

Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae gan Ferthyr Tudful hanes balch o werthfawrogi ei luoedd arfog gan gynnwys yr aelodau sy'n gwasanaethu a'r rhai sydd wedi ymddeol. Trwy fod yn rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog, rydym yn dangos ein hymrwymiad i gefnogi personél y luoedd arfog a'u teuluoedd mewn nifer o feysydd megis addysg, llesiant, gofal iechyd, cyflogaeth, tai a chymorth ariannol.

Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg

Mae CBSMT yn parhau i gefnogi cymuned leol y Lluoedd Arfog. Un agwedd ar hyn yw'r gwaith a wneir gan Swyddog Cyswllt yr Ysgolion Rhanbarthol (RSLO) ar gyfer plant milwyr drwy'r rhaglen Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg Cymru (SSCE). Ym mis Mawrth 2022, derbyniodd yr holl staff e-bost yn tynnu'u sylw at Gynllun Preswyl Haf rhad ac am ddim i blant milwyr sy'n mynychu ysgolion y Fwrdeistref Sirol ym Mlwyddyn 7, 8 neu 9.

Bu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful hefyd yn cefnogi "Mis y Plentyn Milwrol" trwy gynnal Sesiynau Ffitrwydd Hwyllog i Deuluoedd y Lluoedd Arfog ym Mharc Cyfarthfa Merthyr Tudful.

Wedi'i anelu at deuluoedd a phlant personél y Lluoedd Arfog sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol a'r ardaloedd cyfagos, gweithiodd y Cyngor, ynghyd â SSCE Cymru (Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog mewn Addysg Cymru), yn agos gyda Forces Fitness i ddarparu sesiynau difyr a diddorol.

Polisi Hyfforddi a Byddino Lluoedd Wrth Gefn

Cymeradwyodd y Cabinet llawn ei Bolisi ar Fyddino Lluoedd Wrth Gefn ar 2 Mawrth 2022. Pwrpas y Polisi hwn yw diffinio ein rhwymedigaethau tuag at yr holl weithwyr sy'n aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn. Rydym hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi'r staff sy'n aelodau o'r Lluoedd Wrth Gefn, a'r cyfraniad gwerthfawr a wneir gan Filwyr Wrth Gefn a Hyfforddwyr Cadetiaid Mewn Oed i Lluoedd Arfog y DU, eu cymunedau, a'r gweithlu sifil.

Diwrnod y Lluoedd Arfog

Ddydd Llun 21 Mehefin 2021, codwyd baneri'r Lluoedd Arfog y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig. Cawsant eu hedfan am weddill yr wythnos tan Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ei hun, sef dydd Sadwrn 26 Mehefin 2021, i ddangos gwerthfawrogiad am gyfraniad pawb sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Ei Mawrhydi.

Chwaraeon Anabledd

Agorwyd trac cymunedol newydd yn ystod haf 2021 yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid gan Ferthyr Heini. Mae Trac Cymunedol John Sellwood ar agor i'r cyhoedd bob penwythnos a chyda'r hwyr, a gall defnyddwyr gynnig rhoddion gwirfoddol i'r Gronfa Cynnal a Chadw trwy eu PayPal. Mae defnyddwyr yn cynnwys grwpiau lleol fel Clwb Cymdeithasol Cynhwysol Active Wheels, Grwpiau Cerdded i Redeg, a chlybiau chwaraeon fel Clwb Triathlon Merthyr. Yn ogystal â bod yn fan agored fforddiadwy, defnyddiwyd goleuadau cludadwy i oleuo'r trac un diwrnod yr wythnos dros fisoedd y gaeaf er mwyn darparu man diogel i redwyr a cherddwyr. Mae'n cael ei ddefnyddio'n dda ac mae ail gam y datblygiad ar y gweill gyda chyllid pellach wedi'i sicrhau ar gyfer llifoleuadau parhaol.

Cafodd Cynllun Talebau Nofio am Ddim i Deuluoedd ei dreialu yn 2021/2022 o dan y Rhaglen Nofio am Ddim Genedlaethol. Er bod Nofio am Ddim yn darparu cyfleoedd am ddim i rai o dan 16 neu dros 60 oed, roedd rhai trigolion yn dal i wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan oherwydd y gost i rieni. Mae talebau nofio am ddim i deuluoedd wedi'u darparu i bartneriaid yn y meysydd addysg, gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector, sydd yn eu tro yn cael hyd i deuluoedd mewn angen ac yn rhoi'r talebau iddynt. Drwy hynny, gall y teuluoedd i fynychu Pwll Nofio Aber-fan am ddim. Mae'r prosiect yn parhau tan 2022.

Mae Rhaglen Gyflogadwyedd newydd ar y gweill gyda Choleg Merthyr. Drwy'r Rhaglen Chwaraeon, Cyflogadwyedd, Hyfforddiant ac Uwchsgilio (SETUP), mae'r myfyrwyr yn dod yn fwy ymwybodol o ddiwydiant a gyrfa, yn ennill cymwysterau ychwanegol yn y sector, ac yn cael lleoliadau galwedigaethol o ansawdd uchel. Mae'n cefnogi myfyrwyr sydd eisiau gweithio yn y sector fel eu bod yn cael y dechrau gorau posibl. Treialwyd y rhaglen yn 2021/2022 ac mae'r garfan gyntaf ar fin dechrau eu hail flwyddyn.

Mae Prosiect MGirls yng Nghlwb Bechgyn a Merched Treharris yn parhau i gael ei ailddatblygu ar ôl COVID-19. Mae'r rhaglen yn cefnogi merched oedran ysgol i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, a chawsant lwyddiant mawr yn 2021/2022. Fe aeth rhai pobl ifanc o'r grŵp i roi cyflwyniad gerbron corff tebyg i Dragons Den yng Nghaerdydd, gan sicrhau dros £10k o gyllid i droi un o ystafelloedd y Ganolfan yn gampfa. Gall merched ac eraill ddefnyddio'r ystafell hon fel eu bod wrth galon datblygiad y Prosiect ac yn cymryd perchnogaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Gan weithio gyda Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr, mae Merthyr Heini wedi lansio "Camau i Famau", rhaglen sydd wedi'i hanelu at fenywod cyn ac ar ôl beichiogrwydd. Mae'r cyfleoedd sydd wedi'u treialu hyd yma yn cynnwys ioga a ffitrwydd ac fe'u hyrwyddir gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae Fforwm wedi'i greu ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Camau i Famau ym Merthyr, a bydd y grŵp yn bwrw ymlaen â syniadau a phrosiectau newydd.

Unwaith eto, gan weithio gyda Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr, mae Merthyr yn rhedeg y Rhaglen “Pobl Hŷn Ifanc” sy’n darparu gweithgareddau corfforol yn y gymuned ar gyfer y rhai dros 50 oed. Mae’r sesiynau presennol yn cynnwys pêl-droed cerdded, ffitrwydd a bowlïo, ac yn cynnig cymorth i Gartrefi Gofal Lleol ymgysylltu â’u preswylwyr.

Mae menter newydd ar gyfer Pêl-droed i’r Anabl bellach ar waith gyda Sefydliad Cymunedol Dinas Caerdydd. Mae’r sesiwn wythnosol, sydd wedi’i hanelu at blant, yn agored i bob anableded ac yn rhad ac am ddim, gyda Dinas Caerdydd yn cynnal y sesiynau o dan Raglen Kicks yr Uwch Gynghrair.

Mae Active Wheels yn grŵp beicio cymdeithasol newydd sy’n cael ei gefnogi gan Ferthyr Heini. Mae’r grŵp yn agored i bob gallu, yn cynnwys aelodau ag anablededau a phroblemau symudedd, yn darparu reidiau byr a hawdd, ac yn canolbwyntio ar agwedd gymdeithasol y gweithgareddau.

Yn dilyn y pandemig, fe ail-lansiwyd Fforwm Chwaraeon Anableded Merthyr. Mae’r Fforwm, sy’n cynnwys pobl anabl yn bennaf, yn gweithio ochr yn ochr â Merthyr Heini i ehangu cyfleoedd cynhwysol ac i roi llais i bobl anabl yn natblygiad chwaraeon y Fwrdeistref Sirol.

At hynny, mae gan Ferthyr Heini drefniant ffurfiol ar waith gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol, y trydydd sector a phartneriaid cymunedol, sy’n cyfeirio pobl anabl i’r adran. Yna, fe gânt eu cefnogi i ganfod a chyrchu cyfleoedd cynhwysol o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Y Gymraeg

Isod, fe restrir peth o’r gwaith allweddol a wnaed i hyrwyddo a chefnogi’r Gymraeg. Mae pob dim a gyflawnwyd gennym yn 2021-2022 wedi’u manylu’n llawn yn Adroddiad Monitro Blyneddol y Cyngor ar y Gymraeg ar gyfer y flwyddyn honno.

Eisteddfod T yr Urdd

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fu’n bosibl cynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni fel y trefnwyd ym mis Mai 2021. Yn lle hynny, am yr ail flwyddyn yn olynol, cynhaliwyd “Eisteddfod T” ar-lein lle cystadlodd yr holl ymgeiswyr ar ffurf fideo. Cymerwyd rhan gan Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful, Ysgol Uwchradd Pen y Dre a Choleg Merthyr Tudful. Myfyriwr o’r Coleg ym Merthyr Tudful ddaeth yn ail ym mhrif gystadleuaeth y dysgwyr Cymraeg gyda myfyrwyr o Ysgol Uwchradd Pen y Dre yn dod yn gyntaf ac yn ail yn y cystadlaethau llefaru unigol i ddisgylbion blwyddyn 12 ac iau.

Animeiddiad o’r Llyfryn “Bod yn Ddwyeithog”

Ym mis Chwefror 2022, trowyd y llyfryn Bod yn Ddwyeithog yn animeiddiad, fel dull o farchnata addysg cyfrwng Cymraeg. Mae’n fideo dwy funud, sy’n crynhoi prif themâu’r llyfryn. Bu Arweinydd Strategol y Gymraeg a Phartneriaid y Cyngor yn cydweithio i greu’r animeiddiad. Rhoddwyd y fideo ar dudalen Shwmaergyloch ar Facebook. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr holl bartneriaid a bellach, mae Cyngor arall yn bwriadu ymgymryd â phrosiect tebyg.

Diwrnod Shwmae Su’mae

I adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad Diwrnod Shwmae Su’mae a drefnwyd yn 2020, trefnwyd dau ddigwyddiad ar y cyd â phartneriaid y Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) a Grŵp Llywio Strategaeth y Gymraeg. Cynhaliwyd y digwyddiadau hyn ym Mharc Cyfarthfa ar 16 Hydref a Chanolfan Hamdden Gymunedol Aber-fan ar 17 Hydref. Perfformiwyd eitemau Cymraeg yn y digwyddiad gan blant o Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, Ysgol Gynradd Troed-y-rhiw, Ysgol Gynradd Coed y Dderwen ac Ysgol Gynradd Abercanaid. At

hynny, cymerwyd rhan gan ddisgybl o Ysgol Gyfun Rhydywaun, telynores broffesiynol leol a Chôr Meibion Ynysowen. Darparwyd y gweithgareddau gan ystod o bartneriaid dwyieithog a Chymraeg fel y gall y plant, y bobl ifanc a'r gymuned gymryd rhan ynddynt. Daeth busnesau Cymraeg i'r digwyddiad hefyd i hyrwyddo a gwerthu eu cynnyrch. Darparodd y digwyddiadau hyn gyhoeddusrwydd cadarnhaol o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ar draws Merthyr Tudful.

Mynychodd rhwng 300 a 400 o bobl y digwyddiadau hyn. Cafodd Addysg Gymraeg a'r Iaith Gymraeg eu marchnata gyda'r holl bartneriaid yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ar eu stondinau. Y partneriaid a gymerodd ran yn y digwyddiad oedd: y Mudiad Meithrin, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Dysgu Cymraeg Morgannwg, Llesiant Merthyr, Adran y Blynnyddoedd Cynnar, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd CBSMT a'r Coleg ym Merthyr Tudful.

Tudalen #SHWMAERGYLCH ar y Cyfryngau Cymdeithasol

Ym mis Ionawr 2022, lansiwyd tudalen #SHWMAERGYLCH ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn rhan o gynllun marchnata a hyrwyddo Strategaeth y Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Rhoddir gwybodaeth ar y dudalen am ddigwyddiadau Cymraeg a gynhelir ym Merthyr Tudful a gweithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc. Bydd unrhyw ddigwyddiadau a drefnir gan CBSMT a phartneriaid yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen honno. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r dudalen ac ar hyn o bryd, mae ganddi 186 o ddilynwyr gyda'r post mwyaf poblogaidd yn denu 26,000 o ymweliadau ar gyfer y fideo "Bod yn Ddwyieithog". Mae hyn yn cefnogi'r ffordd yr ydym yn annog y defnydd o'r Gymraeg ym Merthyr Tudful a'r Cyngor, ac yn ein helpu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol.

Dysgu Cymraeg Morgannwg

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant yn y gweithle i Staff a Chynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgrych barhaus i annog staff a Chynghorwyr i ymgymryd â hyfforddiant ar y Gymraeg drwy sesiynau galw-heibio, drwy'r fewnwyd, drwy e-bost, a thrwy sesiynau blasu. Mae'r holl gyrsiau a'r dysgu eleni wedi'u cynnal ar-lein. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor aelodau o'i staff sy'n dysgu Cymraeg yn y gweithle, yn amrywio o Lefel Mynediad i Lefel Ganolradd 1 a 2. Er mwyn datblygu diwylliant dysgu a chynllunio gwelliant ehangach ar draws y Cyngor yn sgil y pandemig, mae cyrsiau e-ddysgu Cymraeg Lefel 1 yn cael eu hyrwyddo i staff fel rhan o'n Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (RT&I). Gan weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg, rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol parhaus i ddysgwyr wrando ac ymarfer eu Cymraeg. Yn y gorffennol, mae dysgwyr y Cyngor wedi cynorthwyo Dysgu Cymraeg Morgannwg i farchnata cyrsiau a chynnig cymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ledled y Fwrdeistref Sirol. Fel rhan o weithredu Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), cyfrannodd pedwar dysgwr Cymraeg y Cyngor at y prosiectau gweithredu trwy ymgymryd â gweithgareddau gan nodi'u rhesymau dros ddysgu Cymraeg a'r manteision a ddaeth i'w rhan yn sgil hynny.

Tai

Anstatudol - Grant Cymorth Tai

Yn ystod y cyfnod, ariannodd y Grant Cymorth Tai ddarpariaethau ar gyfer defnyddwyr presennol y gwasanaeth a defnyddwyr sydd newydd eu cyfeirio at y gwasanaeth. Wrth i ni ddechrau darparu cymorth tai yn y cyfnod ôl-COVID, roedd llacio ar y pellter cymdeithasol a'r defnydd o PPE yn golygu y gallai cymorth wyneb yn wyneb ailddechrau ar gyfer y rhai oedd am gael y math o gymorth a gynigid cyn y pandemig. Roedd y rhai oedd yn nerfus/methu cael cymorth wyneb yn wyneb, yn parhau i gael help o bell trwy apwyntiadau ffôn a Skype.

Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd nifer y bobl a gyflwynai'u hunain fel rhai digartref yn parhau'n uchel. Golygai hyn fod unigolion oedd heb lety oherwydd chwalfa'n ymwneud â'u teuluoedd neu berthnasoedd, yn parhau i gael eu rhoi mewn llety brys dros dro gan y Cyngor. Roedd hyn yn bennaf yn golygu defnyddio Lletyau Gwely a Brecwast yng nghanol y dref. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth hyn yn hynod gymhleth a lle bo angen, maen nhw'n derbyn cefnogaeth gan Weithwyr Cymorth Tai medrus a phrofiadol sy'n cydymffurfio â gofynion Lletyau Dros Dro ac yn atal cysgu allan.

Mae Uned Llety â Chymorth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Bydd y Llety hwn yn darparu 22 o Unedau Llety Hunangynhwysol gyda chefnogaeth 24 awr, yn ogystal â mannau cymunol a mannau lle gall asiantaethau cymorth allanol daclo'r rhwystrau i fyw'n annibynnol. Mae dirfawr angen y ddarpariaeth hon os ydym am leihau ein dibyniaeth ar Lletyau Gwely a Brecwast, a lleihau'r effaith negyddol y mae'r defnydd hirdymor o'r fath Lletyau yn ei gael ar y rhai sy'n byw ynddynt. Mae'r ddarpariaeth wedi'i gohirio gan sawl ffactor, ond rydym yn rhagweld y bydd yn barod i breswylwyr yn 2023-2024. Mae Llety â Chymorth newydd sy'n cynnwys 5 Uned ar gyfer pobl ifanc bron yn barod i breswylwyr. Bydd hyn yn darparu Llety â Chymorth 24 awr y dydd i bobl ifanc ag anghenion cymorth lefel-isel sy'n cymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant.

Parhaodd y Grant Cymorth Tai i ddarparu cefnogaeth lle bo'r angen ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth penodol yn ogystal â chymorth cyffredinol i gynnal tenantiaethau ar draws y Fwrdeistref. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer y rhai â hanes o droseddu, pobl ifanc, pobl hŷn, y rhai ag anghenion iechyd meddwl, y rhai â dibyniaeth ar sylweddau, a phobl ag anableddau.

Yn ystod y cyfnod hwn, fe lwyddodd pob Llety â Chymorth a fodolai eisoes i ddarparu'r cymorth a gynlluniwyd ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Dychwelodd y gefnogaeth yn araf i lefelau cyn-COVID (yn unol â'r rheoliadau cyfredol) ac ailsefydlwyd y rhan fwyaf o weithgareddau gan gynnwys y rhai a ddefnyddiai gwaith grŵp ac agosrwydd corfforol. Cafodd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth mewn Hosteli, Llochesi a Lletyau â Chymorth gefnogaeth i weithio tuag at symud ymlaen o Lletyau â Chymorth pan oedd yn briodol.

Mae darparwyr cymorth sy'n ymwneud â thai yn y Fwrdeistref Sirol wedi addasu'n gyflym i'r heriau sydd wedi newid yn barhaus yn ystod y 12 mis diwethaf. Fel Awdurdod Lleol, rydym yn gwerthfawrogi'r modd y mae ein darparwyr cymorth wedi sicrhau bod defnyddwyr bregus y gwasanaeth yn parhau i gael cymorth. Mae darparwyr wedi gweithio'n agos gyda ni i rannu gwybodaeth, a'n helpu i addasu ein cynlluniau fel y gallwn ddiwallu anghenion presennol y rhai sydd angen cymorth â thai yn y ffordd orau bosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn, ymgwymerwyd â dwy astudiaeth ymchwil ranbarthol (Cwm Taf Morgannwg), a gomisiynwyd yn allanol i edrych ar anghenion tai unigolion LHDTG+ a'r rhai o fewn y gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, ac yn benodol y rhai sy'n cael eu

heffeithio'n andwyol gan arferion diwylliannol niweidiol. Bydd canlyniadau'r astudiaethau hyn yn cefnogi ein penderfyniadau comisiynu wrth symud ymlaen, ac yn sicrhau bod gennym ddarpariaeth ddigonol i gefnogi pawb sydd angen cymorth â thai.

Mae'r nifer cyfyngedig o dai addas a fforddiadwy yn y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gyflwyno heriau i'r rhai sy'n symud ymlaen o Letyau â Chymorth. Rydym yn rhagweld, trwy weithredu'r Rhaglen Cymorth Tai yn ei chyfanrwydd a chyda chefnogaeth barhaus Llywodraeth Cymru, y gallwn wella ymhellach ein cynnig o Letyau â Chymorth, Lletyau Symud Ymlaen Addas ac Ailgartrefu Cyflym i'r rhai sydd eu hangen yn ystod 2021-2022.

Tai Statudol

Oherwydd diwedd y pandemig a'r ymagwedd "pawb i mewn", mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi'i diwygio i gynnwys Categori Angen Blaenoriaethol ychwanegol sef "cysgwyr allan". Mae canllawiau'r pandemig wedi cael goblygiadau ar dai ac ar restrau aros am lety, ac rydym yn rhagweld y bydd y gwaith yn dwyn ffrwyth wrth iddo fynd rhagddo.

Mae nifer y cleientiaid sy'n aros i symud ymlaen o Letyau Dros Dro yn parhau i fod yn enfawr, gydag ychydig neu ddim opsiynau ar gyfer symud ymlaen oherwydd diffyg stoc.

Yn sgil cyflwyno Deddf Rhentu Cartrefi 2016 ar 1 Rhagfyr 2022, gadawodd llawer o landlordiaid preifat y sector a gwerthu'u lletyau, gan roi rhybudd i deuluoedd adael eu heiddo presennol. Mae hyn wedi cynyddu'r galw am dai a gwasanaethau digartrefedd, gyda mwy o deuluoedd yn gorfod cael eu lleoli mewn Lletyau Dros Dro.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ymestyn cymorth i deuluoedd ac unigolion sy'n gadael Wcráin wrth i'r argyfwng yno waethygu, a disgwylir i bob Awdurdod Lleol dderbyn canran o ymgeiswyr. Mae'r nawdd yn parhau i weithredu; fodd bynnag, rydyn ni'n gweld mwy a mwy o'r nawdd hwn yn chwalu gydag ymgeiswyr yn haeru eu bod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd.

Dyma'r ffigurau ar gyfer mis Mawrth 2022:

Math o Lety	Nifer yr Aelwydydd
Hosteli, Tai â Chymorth - Garth Villas a Chaplins	20 (yn llawn)
Lleoliadau Gwely a Brecwast	104
Lletyau a Rennir - Tai Amlfeddiannaeth (x 2)	9
Hillfort Court	62 - mewn lleoliadau argyfwng
Lletyau â Chymorth Eraill: Garth Newydd Court a Flooks	12 - llawn
Lletyau Dros Dro - modiwlau Santes Tudful	4

Thema: Gwasanaethau Hygyrch

Amcan: Deall a dileu'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'n gwasanaethau

Mae mwy o wasanaethau'n cael eu cyrchu'n ddigidol ac mae hynny'n gwella'r modd y mae dinasyddion yn ymrymuso ac yn ymgysylltu, ac mae'n galluogi inni gyrraedd mwy o bobl. Mae angen inni ystyried mecanweithiau i gyrraedd pob aelod o'r gymuned. Dylid sicrhau bod fformatau yn ddarllenadwy ac yn glir i ddefnyddwyr y gwasanaeth, a bod y mynediad digidol iddynt yn briodol ac yn cwmpasu pob math o anghenion bryd bynnag y bo modd.

Hygyrchedd

Hygyrchedd digidol yw'r broses o wneud cynhyrchion digidol fel gwefannau, apiau symudol, dogfennau, a mathau eraill o offer ar-lein, yn hygyrch i bawb. Mae'n ymwneud â sicrhau bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn gallu cyrchu'r un wybodaeth ar-lein waeth beth fo'u namau.

Fel Awdurdod Lleol, mae angen i ni sicrhau bod ein cynnwys a'n dyluniad ar y we yn ddigon clir a syml fel y gall y rhan fwyaf o bobl ei defnyddio heb fod angen ei haddasu. Ond os oes angen iddynt ei haddasu, mae angen i'r wefan gefnogi hyn.

Mae hyn yn hanfodol oherwydd gall rhai pobl sy'n cyrchu ein gwybodaeth fod â nam ar eu golwg, anawsterau echddygol, namau gwybyddol, anableddau dysgu, byddardod, neu nam ar y clyw. Mae'n bwysig, felly, bod ein gwefan, ein cynnwys a'n dogfennau yn gweithio i bawb.

Mae hygyrchedd nid yn unig yn cefnogi cynhwysiant cymdeithasol i bobl ag anableddau, ond hefyd grwpiau eraill fel pobl hŷn.

Daeth rheoliadau hygyrchedd i rym ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus ar 23 Medi 2018. Maent yn dweud bod yn rhaid inni wneud ein gwefan yn fwy hygyrch, ac rydym wedi bod yn gweithio'n barhaus tuag at wella'r hygyrchedd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn sgil y gwaith hwn, sefydlwyd Gweithgor Hygyrchedd newydd. Mae'r Gweithgor yn cynnwys aelodau allweddol o'r staff, sy'n gweithio tuag at godi ymwybyddiaeth yn fewnol am hygyrchedd digidol, a hygyrchedd ein dogfennau. Mae'r Gweithgor hefyd yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau cysondeb ar draws ein holl wasanaethau, er mwyn i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt heb rwystrau.

Ym mis Tachwedd 2021, crëwyd "tudalen gyfeirio" ar y fewnrwyd ar gyfer staff. Mae hyn yn cynnig un lleoliad hylaw i'r staff gael gwybodaeth, dolenni i hyfforddiant, a chanllawiau ar sut i wneud dogfennau'n hygyrch.

Yn ystod Ionawr 2022, rhoddwyd pecyn meddalwedd, Silktide, ar waith i gefnogi'r dasg o wneud gwelliannau angenrheidiol i'r wybodaeth a'r dogfennau a gyhoeddir ar y wefan gorfforaethol. Mae Silktide yn helpu trwy brofi ein tudalennau gwe am bethau a allai lesteirio profiad cyffredinol y defnyddiwr fel camgymeriadau sillafu a gramadeg, diffyg hygyrchedd a dogfennau anstrwythuredig. Mae ganddo hefyd system raddio gyda sgôr isel yn golygu bod angen gwelliannau a sgôr uchel yn awgrymu tebygolrwydd uchel o hygyrchedd da.

Ym mis Ionawr 2022, sgoriodd gwefan gorfforaethol CBSMT 40 am ei hygyrchedd, sy'n golygu nad oedd profiad y defnyddiwr yn foddhaol. O ganlyniad i'n hymrwymiad a'n gwaith sylweddol, ym mis Mawrth 2022 cynyddodd ein sgôr i 96 sy'n dangos hygyrchedd da iawn a phrofiad cadarnhaol i ddefnyddwyr.

Ym mis Chwefror 2022, darparwyd hyfforddiant i'r Gweithgor Hygyrchedd gan Anabledd Dysgu Cymru ar Wneud Gwybodaeth yn Hawdd i'w Darllen a'i Deall. Mae cynhyrchu dogfennau ac adroddiadau hawdd-eu-darllen yn ffordd o wneud gwybodaeth ysgrifenedig yn haws ei deall ac yn hygyrch i bawb. Bydd gwaith yn parhau ar y modd yr ydym yn cynhyrchu dogfennau, a chaiff mwy o hyfforddiant ei gynnal ar gyfer y staff.

Rydym hefyd yn y broses o gyflwyno bar offer hygyrchedd ar ein gwefannau corfforaethol a'n his-wefannau. Nod y bar offer yw cael gwared ymhellach ar y rhwystrau sy'n ymwneud â chael mynediad i'n gwasanaethau ar-lein ar gyfer y rheiny sydd, er enghraifft, yn niwro-ddargyfeiriol neu â nam ar eu golwg. At hynny, bydd y bar offer yn cynnig cyfieithiadau i wahanol ieithoedd er mwyn gwella'r gefnogaeth a rown i gymunedau'r Fwrdeistref Sirol sydd ddim yn defnyddio Saesneg fel eu hiaith gyntaf.

Mae datganiad hygyrchedd CBSMT i'w weld ar wefan y Cyngor.

Thema: Gweithlu Cynhwysol ac Amrywiol

Amcan: Creu gweithlu cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu'r cymunedau ym Merthyr Tudful

Gall y Staff weld gwybodaeth am Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ar Fewnwyd a Rhyngwyd y Cyngor. At hynny, mae gennym adran ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg sy'n cynnig gwybodaeth, adnoddau a dolenni ar gyfer y Staff. Dyma restr o fentrau eraill a gwblhawyd i gyflawni'r amcan hwn:

Calendr Cydraddoldeb

Cynhyrchwyd Calendr Cydraddoldeb gan Swyddog Cydraddoldeb CBSMT ar gyfer y Staff ac mae ar gael iddynt ar eu Mewnwyd. Diben y Calendr yw dwyn ynghyd restr o ddiwrnodau a digwyddiadau sy'n codi ymwybyddiaeth y genedl o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant trwy eu cydnabod a'u dathlu. Nid yw'n rhestr gynhwysfawr, ond ar yr olwg gyntaf gall y Staff weld rhai dyddiadau pwysig sy'n cael eu rhestru bob mis.

Mae'r Calendr yn offeryn defnyddiol ac yn adnodd ymarferol sy'n helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant ledled y Cyngor. Caiff y Calendr ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, a chaiff calendr newydd ei gynhyrchu a'i ddosbarthu i'r Staff bob mis Ionawr.

Hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus yn elfennau allweddol o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor ar gyfer arfarnu perfformiad y Staff a chynnal sesiynau 1 i 1. Drwy hyn, gellir nodi a diwallu anghenion y gweithwyr o ran hyfforddiant ar Gydraddoldeb.

Yn dilyn adborth gan y Staff, cafwyd cynnydd i weithredu dau Blatfform E-ddysgu newydd: un ar gyfer Staff o'r enw Skills Hub ac un ar gyfer Rheolwyr o'r enw Kallidus. Mae Skills Hub yn cynnig cyfle i staff gyrchu dros 650 o gyrsiau ar-lein i wella a datblygu'u sgiliau ac i gynyddu'u gwybodaeth am feysydd o ddiddordeb iddynt. Bydd hyn yn cynnwys modiwlau ac elfennau sy'n canolbwyntio ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, Iechyd a Llesiant, Gwerthoedd Prydeinig a Datblygiad Personol. Mae Kallidus yn canolbwyntio ar fodiwlau i gefnogi a hysbysu Rheolwyr CBSMT o feysydd megis Rhagfarn Ddiarwybod, Deallusrwydd Emosiynol, Rheoli Gwrthdaro, Arddulliau a Nodweddion Arweinyddiaeth.

Mae Modiwl E-ddysgu gorfodol ar Fwlio a Harasio yn y broses o gael ei ddatblygu ar gyfer yr holl Staff. Hefyd, fe ragwelir y caiff ein Fforwm Staff ei ail-lansio ar gyfer 2022-2023.

Mae Hyfforddiant ar y Gymraeg yn cael ei gynnig i'r Staff o hyd. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithle i Staff a Chynghorwyr.

Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i ailwampio ein Rhaglen Sefydlu Gorfforaethol ar gyfer Staff newydd, sydd bellach yn canolbwyntio mwy ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Gweledigaeth/Gwerthoedd y Cyngor. Bydd yn cysylltu â'n Polisi Dim Goddefgarwch ar gyfer Bwlio a Harasio, a'n Polisi Urddas a Pharch yn y Gweithle.

Iechyd Corfforol a Meddyliol y Staff

Mae CBSMT yn ystyried bod iechyd a llesiant ei weithwyr yn bwysig, ac mae wedi ymrwymo i gynnig amgylcheddau gweithio iach ar gyfer pob gweithiwr. Er mwyn cynyddu presenoldeb i'r eithaf, mae'r Cyngor yn hyrwyddo ymagwedd gadarnhaol trwy sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a chymorth i weithwyr â phroblemau iechyd. Bydd gweithwyr sy'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch yn cael eu cefnogi a'u trin â pharch a dealltwriaeth.

Mae gan y Cyngor Raglen Cymorth i Weithwyr gyda Gofal Cyntaf i sicrhau bod gweithwyr yn cael mynediad at gwnsela a chymorth 24 awr y dydd. Mae manylion cyswllt Gofal Cyntaf wedi'u dosbarthu i'r holl weithwyr ac maent hefyd ar Fewnrwyd y Staff. Anfonir e-byst rheolaidd hefyd gan Ofal Cyntaf i hyrwyddo eu gwasanaethau.

Mae Adran Iechyd Galwedigaethol y Fewnrwyd yn cael ei diweddarau'n barhaus ac mae wedi ehangu i gynnwys pynciau ychwanegol i gefnogi gweithwyr.

Yn ystod y cyfnod hwn, hyrwyddwyd a gweithredwyd y canlynol:

- Canolbwyntiodd yr Adran Iechyd Galwedigaethol ar hybu Dim Ysmygu. Anfonwyd e-byst at yr holl Staff yn hyrwyddo'r Gwasanaeth Helpa Fi i Stopio.
- Ar y cyd ag Wythnos Iechyd Meddwl, bu'r Adran Iechyd Galwedigaethol yn hyrwyddo gwybodaeth sy'n helpu gweithwyr i reoli'u llesiant meddyliol. Roedd y rhain yn cynnwys Sesiynau Meddylgarwch, Sesiynau Gwytnwch yn y Gweithle, Sesiynau i Reoli Straen, Sesiynau Siarad, a Gweminarau Iechyd Meddwl. Gallai'r Staff gysylltu â'r Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol hefyd i siarad am unrhyw bryderon yn ymwneud ag iechyd.
- Hyrwyddwyd y manteision iechyd a ddaw yn sgil gweithgareddau corfforol ac ymarfer corff, gyda chysylltiadau â champfa oedd yn cynnig aelodaeth ratach i staff.
- Hyrwyddwyd materion yn ymwneud â'r menopos ar y cyd â Diwrnod Menopos y Byd. Sefydlwyd sesiynau cymorth ar gyfer y gweithwyr. Roedd rhai o'r mynychwyr yn mynd trwy'r menopos eu hunain neu'n adnabod rhywun â'r cyflwr, tra oedd eraill yn chwilio am fwy o wybodaeth. Hwyluswyd y sesiynau gan ein Hymgyngorydd Iechyd Galwedigaethol. Roedd pob sesiwn yn canolbwyntio ar symptom penodol o'r menopos a mynychwyd y rhan fwyaf o'r sesiynau gan tua 20 o aelodau'r staff. Parhaodd y rhain hyd at fis Rhagfyr 2021.
- Cymeradwywyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Absenoldeb Salwch, a dechreuodd hyfforddiant i Reolwyr ar hyrwyddo a gweithredu'r Polisi hwn ym mis Mawrth 2022.

- Mae'r Cyngor wedi arwyddo'n swyddogol i'r Siarter Marw i Weithio. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw weithiwr sydd â salwch angheuol yn cael ei ddiswyddo am hyn. Cânt eu cefnogi os ydynt am barhau i weithio, a byddant yn derbyn tâl llawn gydol eu hafiechyd os ydynt ar absenoldeb salwch.
- Cydnabuwyd a hyrwyddwyd y Diwrnod Amser i Siarad. Cafodd Gweithdai Llesiant Ar-lein a Sesiynau Meddylgarwch eu sefydlu gan barhau am nifer o fisoedd.
- Trefnwyd Rhaglen Lesiant Ryngweithiol a'i chyflwyno i'r holl reolwyr. Denodd yr achlysur nifer o fynychwyr ynghyd ag adborth cadarnhaol.

Data'r Gweithlu

Mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn hanfodol bod pob sefydliad sy'n dymuno darparu nwyddau neu wasanaethau ar ei ran yn gallu dangos bod pob cam rhesymol ac ymarferol yn cael ei gymryd i ganiatáu mynediad cyfartal a thriniaeth gyfartal mewn cyflogaeth, darparu gwasanaethau a hyfforddiant i bawb.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Ddogfen Gaffael Sengl (SPD) wedi'i chyfuno â chwestiynau cymhwyster cyflenwyr priodol ac mae wedi ychwanegu ei gwestiynau penodol ei hun sy'n ymwneud â chydaddoldeb ato. Mae templedi Gwahoddiad i Dendro (HCA) safonol y Cyngor yn cynnwys datganiad cydraddoldeb penodol gyda chynnwys cymalau contract sy'n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ychwanegir cymalau sy'n gysylltiedig â Chydaddoldeb a'r Gymraeg i'w delerau ac amodau safonol ar gyfer contractau pan fo angen.

Mae'r Cyngor yn ategu egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru 2021 (WPPS) a'i ddeg prif thema drwy strategaeth gaffael addas i'r diben sy'n darparu cyfeiriad strategol a chydgyssylltu i gydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol a'r WPPS. Mae'r WPPS yn cynnwys themâu fel Effeithiau Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol, Manteision Cymunedol a Chystadleuaeth Agored, Hygyrch.

Mae elfennau Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn y Broses Gaffael mewn perthynas â Thendro a Dogfennaeth Cais am Ddyfynbris wedi'u hadolygu yn unol â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010, (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r dogfennau hyn yn cefnogi'r Cyngor i sicrhau bod pob cyflenwr trydydd parti yn dangos cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn, lle bo hynny'n berthnasol i natur a math y nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar ei ran.

Mae'r Cyngor yn un o lofnodwyr y Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae Arferion Caethwasiaeth, Cosbrestru a Chyflogaeth Modern wedi'u cynnwys yn yr holiaduron cyn-gymhwyso/cam dethol ar gyfer yr holl weithgarwch tendro perthnasol.

Data'r Gweithlu

Mae data'n hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro tueddiadau, canfod meysydd i'w gwella ac asesu ble'r oeddem ni, ble'r ydym ni a ble'r hoffem ni fod.

Rydym wedi adolygu ein Ffurflen Monitro Cydraddoldeb i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnom. Rydym hefyd wedi datblygu Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ar gyfer ymgynghoriadau ac ymarferion ymgysylltu i sicrhau ein bod yn cael sampl cynrychioliadol o ymatebion, ac i sicrhau ein bod ni'n clywed barn a phrofiadau bywyd ein cymunedau.

Fel rhan o hyn, rydyn ni hefyd yn adolygu'r modd y caiff data ei fonitro'n fewnol a'r ffordd orau o ganfod y meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r Staff yn cael eu hannog i gwblhau'r data a ddefnyddir nid yn unig i gyd-fynd â'n dyletswyddau ond i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau gorau y gallwn i'n gweithlu.


Mae'r wybodaeth isod yn dangos data'r gweithlu ar 31 Mawrth 2022.


Data Cyffredinol y Staff

Staff cyflogedig y Cyngor ar 31 Mawrth 2022

Nifer y staff mewn swydd = 2387, o'r rhain:


Parhaol	Tymor Penodedig	Llawm-amser	Rhan-amser
1875	512	1408	979





Oedran



16-34	35-54	55-64	65+	CYFANSWM
582	1319	439	47	2387



Anabledd

Byddar/ Trwm eu Clyw	Anawsterau Iechyd Meddwl	Nam Symudedd	Nam Dysgu	Afiechyd Hirdymor	Nam ar y Golwg
10	7	5	2	33	4

Arall	Dim Anabledd	Mae'n well gen i beidio ag ateb/ddim yn hysbys	CYFANSWM
22	2118	176	2387




Rhywedd

Gwryw	Benyw	CYFANSWM
629	1758	2387


Cyfeiriadedd Rhywiol


Benyw Hoyw/ Lesbiad	Dyn Hoyw	Deurywiol	Heterorywiol/ Strêt	Arall	Mae'n well gen i beidio ag ateb/ ddim yn hysbys	CYFANSWM
15	23	8	2063	6	272	2387



Crefydd


Cristnogaeth	Dim Crefydd	Bwdhaeth	Iddewiaeth	Islam	Hindŵaeth	Arall	Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	CYFANSWM
589	1038	0	1	3	0	54	702	2387






Ethnigrwydd

Gwyn Prydeinig	Gwyn Arall	Asiaidd	Du Caribiaidd	Du Arall	Hil Gymysg	Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	CYFANSWM
2020	27	6	1	1	1	430	2387



Iaith Gyntaf

Saesneg	Cymraeg	Pwyleg	Almaeneg	Portiwgaleg	Ffrangeg	Hwngareg	Rwmaneg
1723	34	7	2	2	2	1	1
Sbaeneg	Ffilipineg	Tai	Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys			CYFANSWM	
2	2	2	708			2387	



Proffil Pobl – Cyflog

Cyflog	Yr Holl Staff			
	Gwryw		Benyw	
	Llawm-amser	Rhan-amser	Llawm-amser	Rhan-amser
£0 - £4,999	0	21	0	411
£5,000 - £9,999	1	15	0	177
£10,000 - £14,999	15	34	1	239
£15,000 - £19,999	49	21	192	169
£20,000 - £24,999	155	5	143	62
£25,000 - £29,999	94	1	132	15
£30,000 - £39,999	83	2	162	40
£40,000 - £49,999	87	0	209	5
£50,000 - £59,999	9	0	28	0
£60,000 - £69,999	12	0	17	0
£70,000+	8	0	11	0
Cyfrifwyd: Cyfanswm nifer y cyflogau				
CYFANSWM	513	99	895	1118

**Mae'r cyfanswm yn uwch na nifer y staff a gyflogir gan ei fod yn cynnwys staff â mwy nag un swydd.*

Ceisiadau am Swyddi ar 31 Mawrth 2022 - Cyfanswm y Ceisiadau = 1,879

O ran nifer y staff a wnaeth gais am swydd yn fewnol yn y Cyngor, cawsom **320** o geisiadau gyda **86** ohonynt yn Wrywod a **234** yn Fenywod.

O ran ymgeiswyr allanol, derbyniodd y Cyngor **1515** o geisiadau gyda **438** ohonynt yn Wrywod a **1077** yn Fenywod.

O ran Ceisiadau Asiantaeth, derbyniodd y Cyngor **44** o geisiadau gyda **36** ohonynt yn Wrywod ac **8** yn Fenywod.

	Nifer y cyflogeion sy'n ymwneud â'r weithdrefn gwyno	
Nodweddion Gwarchodedig	Fel yr achwynydd	Person y gwnaed cwyn yn ei erbyn
Oedran	0	0
16-34	0	0
35-54	0	0
55-64	0	0
65+	0	0
Rhywedd		
Gwryw	0	0
Benyw	0	0
Anabledd		
Anabl	0	0
Ddim yn Anabl	0	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	0	0
Cyfeiriadedd Rhywiol		
Heterorywiol	0	0
Lesbiaidd/Hoyw	0	0
Deurywiol	0	0
Arall	0	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	0	0
Grŵp Ethnig		
Seisnig/Cymreig	0	0
Gwyn Arall	0	0
Asiaidd	0	0
Du Affricanaidd	0	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	0	0
Crefydd neu Gred		
Dim Crefydd	0	0
Cristnogaeth (pob enwad)	0	0
Islam	0	0
Bwdhaeth	0	0
Arall	0	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/Ddim yn hysbys	0	0

Nodweddion Gwarchodedig	Nifer y cyflogeion sy'n destun gweithdrefnau disgyblu	Nifer y cyflogeion sydd wedi gadael yr Awdurdod	Nifer y Staff sy'n cymryd Absenoldeb Mamolaeth
Oedran	4	195	105
16-34	0	70	50
35-54	3	89	55
55-64	1	30	0
65+	0	6	0
Rhywedd			
Gwryw	3	43	0
Benyw	1	152	105
Anabledd			
Anabl	0	8	0
Ddim yn Anabl	4	177	70
Mae'n well gen i beidio ag ateb/ Ddim yn hysbys	0	10	35
Cyfeiriadedd Rhywiol			
Heterorywiol	4	149	90
Lesbiaidd/Hoyw	0	4	0
Deurywiol	0	0	0
Arall	0	0	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/ Ddim yn hysbys	0	42	15
Grŵp Ethnig			
Cymreig/Seisnig	4	152	92
Gwyn Arall	0	1	1
Asiaidd	0	2	0
Du Affricanaidd	0	1	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/ Ddim yn hysbys	0	40	12
Crefydd neu Gred			
Dim Crefydd	2	89	47
Cristnogaeth (pob enwad)	0	33	23
Islam	0	1	1
Bwdhaeth	0	0	0
Arall	0	15	0
Mae'n well gen i beidio ag ateb/ Ddim yn hysbys	2	57	34

Thema: Rhywedd/Cyflog Cyfartal

Amcan: Sicrhau tegwch cyflog ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Rhywedd/Cyflog Cyfartal

Fel Cyngor, mae'n ofynnol i ni ystyried unrhyw wahaniaethau cyflog sy'n bodoli a phennu amcan a fydd yn mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaeth a ganfuwyd, gan gynnwys adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau.

Yn genedlaethol, er bod systemau cyflog yn bwysig wrth bennu cyflog teg, mae nifer o faterion eraill yn berthnasol wrth benderfynu faint o dâl a roir i fenywod a dynion.

Mae'r rhain yn cynnwys: arwahanu galwedigaethol; argaeledd gwaith llawn-amser/rhan-amser mewn gwahanol grwpiau galwedigaethol, e.e. mae swyddi â chyflog is yn rhai rhan-amser yn bennaf, tra bo rolau uwch sy'n denu mwy o gyflog yn rhai llawn-amser yn bennaf; argaeledd polisïau a chefnogaeth sy'n ystyriol o deuluoedd, a diwylliant sefydliadol.

Mae adrodd ar hyn yn ein helpu i ddeall maint ac achosion unrhyw fylchau cyflog rhwng y rhyweddau ac unrhyw faterion y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae hefyd yn fesur i ddangos y gwahaniaeth rhwng enillion menywod a dynion.

Mae'r Cyngor yn cynnal adroddiadau rheolaidd ar y bwlch rhwng cyflogau'r rhyweddau. Caiff pob swydd ei gwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (ac eithrio Penaethiaid Gwasanaeth sy'n cael eu prosesu drwy Gynllun HAY). Ni chymerir unrhyw wybodaeth bersonol am ddeiliad y swydd i ystyriaeth ar y cam hwn. O ganlyniad, mae'r system raddio yn rhydd o unrhyw ragfarn ddiawybod. Caiff graddau a mecanweithiau'r Cyngor ar gyfer tâl ychwanegol eu gweithredu ar sail sy'n rhyweddol niwtral. Felly, nid yw'r adroddiadau yn datgelu unrhyw anghysondebau amlwg rhwng y rhyweddau.

Nid oes anghydraddoldeb mewn cyflog. Caiff pob swydd ei sgorio'n deg ac yn gyson yn unol â Chynllun Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf. Caiff ein Polisïau a'n Gweithdrefnau eu monitro a'u hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau nad oes unrhyw rwystrau cudd nac ymddangosiadol yn bodoli. Yn hanesyddol, ymgwymerodd y Cyngor ynghyd ag Undebau Llafur â llawer o waith i weithredu'r statws sengl a'r golofn gyflog newydd.

Ym mis Mawrth 2022, y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhyweddau oedd 0%, felly mae dynion yn CBSMT yn cael eu talu 0% yn fwy na menywod, sy'n golygu am bob £1 y mae dyn yn ei hennill, mae menyw yn ennill £1.

Fodd bynnag, ar gyfartaledd mae dynion yn CBSMT yn cael eu talu 2.34% yn fwy na merched, sy'n golygu am bob £1 y mae dyn yn ei hennill, bydd menyw yn ennill 98c.

I gael rhagor o wybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhyweddau, gweler Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhyweddau CBSMT 2021 – 2022.

Y Camau Nesaf

Mae'n hollbwysig ein bod yn gwella'n barhaus ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni'r camau gweithredu mwyaf priodol yn ein CCS. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'n gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb ac yn parhau i fod yn rhagweithiol.

Byddwn yn parhau â'r modd yr ydym yn casglu ac yn monitro ein data. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth y staff o bwysigrwydd casglu'r data hwn a'r ffordd y gall ein cynorthwyo ni i wneud penderfyniadau mwy gwybodus, a darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n staff. Byddwn yn parhau i ddiweddarau a diwygio ein Ffurflen Monitro Cydraddoldeb, a byddwn hefyd yn tanlinellu'r pwysigrwydd o'i chynnwys mewn ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori.

Rydyn ni'n gweithio ar wella ein dulliau recriwtio ac yn annog ymgeiswyr mwy amrywiol. Wrth wneud hyn, rydyn ni hefyd yn adolygu ein Ffurflenni Cais am Swydd a'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn, gan wneud yn siŵr ein bod yn cynnwys cwestiynau ar, er enghraifft, niwroamrywiaeth, i sicrhau cyfveliadau teg.

Byddwn yn lansio bar offer hygyrchedd ar ein gwefan gorfforaethol er mwyn galluogi trigolion i gael mynediad gwell at wybodaeth am ein gwasanaethau.

Rydym am barhau i wella ein Sgôr ar Fynegai Hygyrchedd Silktide a gwneud ein gwasanaethau'n fwy hygyrch, trwy gynhyrchu fersiynau hawdd eu darllen a hyrwyddo pwysigrwydd hyn.

Rydym am barhau i weithredu ar y cyd wrth gyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion cydraddoldeb ar draws yr Awdurdod a chyda phartneriaid. Byddwn yn cyflwyno mwy o hyfforddiant ar wahanol bynciau i holl staff yr Awdurdod.

Byddwn yn dechrau ymgysylltu ac ymgynghori ar ein CCS newydd ar gyfer 2024-2028 yn 2023, a byddwn yn dal i wneud yn siŵr fod gan grwpiau â nodweddion gwarchodedig lais a'u bod yn cael eu cynnwys wrth inni osod ein hamcanion newydd. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn sicrhau ein bod yn tanlinellu'r pwysigrwydd o gynnwys agweddau cydraddoldeb yn ein Cynllun Corfforaethol 2022-2027, a fydd yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2022-2023.

Byddwn yn parhau i "sganio'r gorwel" ac yn sicrhau ein bod yn rhan o unrhyw ymgynghoriadau ar unrhyw gynlluniau gweithredu sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru ac yn ehangach, e.e. Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru. Bydd unrhyw Gynlluniau Gweithredu a ddatblygir yn cael eu hadolygu a bydd y camau gweithredu perthnasol yn cael eu cynnwys yn ein CCS.

Manylion Cyswllt

Rydym yn croesawu sylwadau ar yr adroddiad ac os hoffech wybod mwy am y gwaith mae'r Cyngor yn ei wneud, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Cydraddoldeb

Y Ganolfan Ddinesig

Stryd y Castell

Merthyr Tudful

CF47 8AN

Ffôn: 01685 725000

equalities@merthyr.gov.uk